# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | **STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD GWENER, 28 MEHEFIN 2013 am 2.00 o'r gloch** | **FRIDAY, 28 JUNE at 2.00pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**<u>AELODAU / MEMBERS</u>**

**<u>Cynghorwyr / Councillors:-</u>**

Jim Evans, W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees

**<u>Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations</u>**

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**<u>Athrawon/Teachers</u>**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig), Mr Martin Wise (Ysgol Uwchradd Caergybi/Holyhead High School)

**<u>Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members</u>**

Mrs Helen Roberts (Prifysgol Bangor University)
Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

**R H A G L E N**

1 **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r CYSAG.

2 **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd i'r CYSAG.

*(Is-Gadeirydd presennol – Mr Rheinallt Thomas, Eglwys Bresbyteraidd Cymru)*

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, 2013.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG MÔN 2011/12** (Tudalennau 7 - 26)

Cyflwyno fersiwn derfynol Adroddiad Blynyddol 2011/12.

6 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL**

Y Swyddog Addysg i adrodd.

7 **SUT GALL Y CYSAG GYFLAWNI EI DDYLETSWYDDAU YN Y DYFODOL** (Tudalennau 27 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Addysg.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 29 - 52)

- Cyflwyno cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ar 22 Mawrth, 2013.
- Cyflwyno adborth o gyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ar 19 Mehefin, 2013

9 **ADOLYGU'R MAES LLAFUR CYTUN**

Y Swyddog Addysg i adrodd.

10 **LLAWLYFR I AELODAU'R CYSAG** (Tudalennau 53 - 64)

Llawlyfr ynghlwm.

11 **CYFARFOD NESAF Y CYSAG**

Dydd Mawrth, 8 Hydref, 2013 am 2 o'r gloch y prynhawn.

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd E. G. Davies (Cadeirydd) |
| | **Yr Awdurdod Addysg** |
| | Cynghorydd Alun Mummery |
| | **Yr Enwadau Crefyddol** |
| | Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd) (Is-Gadeirydd)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) |
| | **Athrawon** |
| | Alison Jones (Ysgol y Parch. Thomas Ellis)<br>Bethan Ll. Jones (Ysgol y Graig) |
| | Y Parch Elwyn Jones (Aelod Cyfetholedig) |
| **WRTH LAW**: | Mr Gary Jones (Swyddog Addysg Gynradd)<br>Miss Bethan James (Ymgynghorydd y Dyniaethau)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Stephen Francis Roe, Mefys Edwards |

---

DRAFT

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol ar gyfer Ynys Môn.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2012.

Materion yn codi –

- Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mrs Alison Jones a Mrs Bethan Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r CYSAG. Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd wrth Aelodau'r CYSAG bod Mrs Alison Jones a Mrs Bethan Jones yn bresennol fel cynrychiolwyr enwebedig penaethiaid cynradd ac athrawon ysgolion cynradd Ynys Môn yn y drefn honno a bod yna hefyd ddirprwy gynrychiolydd pe bai un o'r ddwy yn methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r CYSAG. Hefyd, roedd Mrs Mefys Edwards wedi ei chadarnhau fel cynrychiolydd athrawon uwchradd ac roedd Mr Martin Wise yn parhau i fod yn gynrychiolydd Penaethiaid ysgolion uwchradd.
- Cadarnhaodd y Swyddog Pwyllgor nad oedd unrhyw atborth wedi ei dderbyn gan yr Eglwys yng Nghymru na gan yr Eglwys Gatholig o ran darparu enw cynrychiolydd i wasanaethu ar y CYSAG ac felly roedd dau le'r Eglwys ar y Cyngor yn parhau heb eu llenwi.
- Cafwyd diweddariad gan Ymgynghorydd y Dyniaethau am ei chyswllt ag Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern ers y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a hynny yn unol â'r penderfyniadau o dan eitem 4 y cofnodion. Disgrifiodd natur y gefnogaeth a roddwyd i'r

cyntaf trwy ddarparu'r Maes Llafur Cytun, cyfarwyddyd CA2 a CA3 yn ogystal â gwybodaeth ynglyn â statws cyfreithiol AG fel pwnc, ac adnoddau dysgu. Roedd Cymdeithas CYSAGau Cymru ers hynny wedi trefnu sesiwn hyfforddi i athrawon Addysg Grefyddol CA3 ar gynnal asesiadau a chynllunio gwaith dosbarth a gweithgareddau dysgu. Roedd Ysgol Uwchradd Bodedern wedi mynd i'r afael â'r mater oedd yn codi yn sgîl cyflwyno portffolio AG yr ysgol i'r safonwyr allanol mewn perthynas â'r ddealltwriaeth o'r nodweddion lefelau ac roedd wedi addasu ei chynllun gwaith yn unol â hynny.

- O ran hunanarfarniadau mewn ysgolion, dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd bod Ysgol Corn Hir wedi cytuno y gallai ei hunanarfarniad hwy o Addysg Grefyddol gael ei ddefnyddio'n ddienw fel esiampl i ysgolion eraill o safbwynt hunanarfarnu. Ers y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG, fe dderbyniwyd hunanarfarniad arall gan Ysgol Brynsiencyn er bod tri yn parhau ar ôl. Rhoddodd y Swyddog grynodeb i'r Aelodau o gynnwys hunanarfarniad Ysgol Brynsiencyn gan gyfeirio at y sylw oedd yn cael ei roi yn yr ysgol at agweddau moesol; darparu cyfleon i ddisgyblion fyfyrio a chymryd rhan mewn cyngherddau ac ati a chael y Person a'r Gweinidog lleol i ddod i'r gwasanaethau boreol a chymryd rhan yn y Gwasanaeth Nadolig blynyddol. Roedd yr ysgol hefyd yn cynnal gwasanaeth bedydd yn flynyddol.

  Nododd y Cadeirydd ei fod yn siomedig ynglyn â'r diffyg ymateb gan y tair ysgol arall oedd heb gyflwyno eu hunanarfarniadau i'r CYSAG yn y cyfarfod hwn. Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd y byddai'n rhoi sylw i'r mater. Roedd Aelodau'r CYSAG yn gytûn gyda phwysleisio mai eu prif rôl oedd un o fonitro safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn ysgolion yr Ynys ac mai'r unig ffordd oedd ganddynt o wneud hynny ar hyn o bryd oedd trwy graffu ar waith hunanarfarniadau'r ysgolion. Nid oedd peidio â chyflwyno'r hunanarfarniadau, felly, yn dderbyniol.

  Awgrymodd Ymgynghorydd y Dyniaethau y gellid anfon y sampl o adroddiad hunanarfarnu yr oedd hi wedi ei gyflwyno yn y cyfarfod o'r CYSAG yn Hydref 2012 ynghyd â'r patrwm a ddarparwyd gan Ysgol Corn Hir i'r tair ysgol dan sylw fel model byr o'r hyn y gallent ei gyflwyno i ddangos y ddarpariaeth AG yn eu hysgolion.

  **Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

  **CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Swyddog Ysgolion Cynradd i gysylltu gyda'r tair ysgol oedd heb anfon eu hadroddiadau hunanarfarnu i weld a oeddent ar gael ac i anfon i'r ysgolion hynny yr adroddiad hunanarfarnu enghreifftiol a baratowyd gan Ymgynghorydd y Dyniaethau a hefyd yr esiampl a ddarparwyd gan Ysgol Corn Hir.**

- Dywedodd Ymgynghorydd y Dyniaethau wrth Aelodau'r CYSAG fod yr Adolygiad Thematig o Addysg Grefyddol yr oedd Estyn yn paratoi i'w gynnal ac yr adroddwyd arno yn y cyfarfod diwethaf bellach wedi digwydd a bod yr adolygiad wedi canolbwyntio ar CA4 a CA5. Ni alwyd ar unrhyw ysgol yng Ngwynedd nac Ynys Môn fel rhan o'r adolygiad.

## 3 SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynwyd i sylw'r CYSAG adroddiad gan y Swyddog Addysg Gynradd ynglŷn â'r ysgolion a arolygwyd yn ystod tymor yr Hydref, 2012. Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sylwadau yn adroddiadau Estyn yn ymwneud â datblygiad moesol ac ysbrydol a'r gweithgareddau a'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd yn Ysgol Cemaes; Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol y Tywyn. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd unrhyw argymhellion yn codi o fewn yr adroddiadau parthed Addysg Grefyddol/addoli ar y cyd. Awgrymodd Ymgynghorydd y Dyniaethau y dylid gofyn i'r tair ysgol anfon eu hadroddiadau hunanarfarnu i sylw'r CYSAG - cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd bod cais wedi ei wneud yn barod i'r perwyl hwnnw.

Bu Aelodau'r CYSAG yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynwyd a rhoddwyd sylw i rai anghysonderau yn yr adroddiad mewn perthynas â'r geiriau oedd yn cael eu defnyddio gan yr arolygwyr, er enghraifft y cyfieithiad Cymraeg (anghywir) o "collective worship" (cyd-addoli) a'r defnydd o "daily assemblies" (gwasanaethau dyddiol)." Nodwyd ymhellach bod y mater hwn o ddefnydd anghywir a/neu camgyfieithu termau wedi ei nodi'n flaenorol gydag Estyn drwy CYSAGau Cymru, ac awgrymwyd y dylid anfon llythyr yn uniongyrchol i Estyn i ddwyn sylw'r corff archwilio at y ffaith bod y CYSAG wedi nodi un neu ddau o anghysonderau yn nefnydd yr archwilydd o dermau yn yr adroddiadau archwilio y cyfeirir atynt.



DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Swyddog Addysg Gynradd i ysgrifennu at Estyn i dynnu sylw'r corff arolygu at gamgymeriadau yr oedd y CYSAG wedi eu nodi yn yr adroddiadau archwilio dan sylw o ran y defnydd a wneir a/neu'r cyfieithiad o'r termau.**

## 4 YMATEB A CHYFARWYDDYD CYSAG

- Cafwyd diweddariad gan Ymgynghorydd y Dyniaethau ar y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy gan y Gwasanaeth yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG fel a ganlyn -

  - Rhoddwyd cyfle i Athrawon AG Sector Uwchradd fynychu dau gwrs hyfforddi, un ar y testun Cau'r Bwlch – Dysgu ac Addysgu Effeithiol oedd yn golygu sgriwtineiddio gwaith disgyblion a safonau athrawon yn dysgu AG a hefyd yn y cyd-destun ehangach o wella llythrennedd a rhifedd. Roedd y cwrs yn delio â materion fel yr iaith a'r derminoleg oedd i'w defnyddio mewn adroddiadau hunanarfarnu fel eu bod wedi eu halinio'n agosach gyda'r iaith a'r termau y mae adroddiadau arolygu Estyn yn eu defnyddio; ystyr diffiniad y termau ansoddol a ddefnyddir gan Estyn fel "mwyafrif" a hefyd yr ystyriaethau wrth ddod i un o'r pedair barn – ardderchog, da, digonol, anfoddhaol. O ystyried nad oes gan athrawon AG CA3 yr un lefel o ddata perfformiad ar gael iddynt â'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu ar gyfer pynciau eraill, fe ddaeth athrawon AG at ei gilydd gyda samplau o waith ac yr oedd Ymgynghorydd y Dyniaethau wedi ychwanegu dogfennau eraill atynt e.e. adroddiad i athro oedd newydd gymhwyso ac adroddiad ar arsylwi llythrennedd a gofynnwyd iddynt hefyd ffurfio barn ar ansawdd y dysgu a'r addysgu. Gwnaed gwaith hefyd gan ddefnyddio esiamplau o waith disgyblion er mwyn deall y lefelau a nodweddion y lefelau yn well. Roedd yr athrawon ar y cwrs hefyd wedi edrych ar y Fframwaith Cyffredin ac ar y disgwyliadau o safbwynt Blwyddyn 9 mewn perthynas â sgiliau ysgrifennu a gofynnwyd iddynt nodi a oedd y gwaith yn adlewyrchu rhai disgwyliadau penodol o safbwynt sillafu, gramadeg, atalnodi ac yn y blaen.
  - Roedd yr ail gwrs i athrawon AG uwchradd wedi ei gynnal gan CBAC ac roedd yn cynnig cyfarwyddyd ar asesiadau mewn perthynas ag arholiadau allanol Astudiaethau Crefyddol. Roedd Ymgynghorydd y Dyniaethau wedi paratoi cwrs i'r athrawon hynny nad oeddynt yn bresennol yn y sesiwn CBAC oedd yn cynnwys Data Darllen a hefyd y defnydd o siartiau, graffiau, tablau a diagramau fel tystiolaeth.
  - Yng nghyswllt y sector cynradd, cynhaliwyd cwrs cyn y Nadolig yn Eglwys Biwmares a'r ysgol oedd yn ystyried ystyr y Nadolig, ac yn benodol, berthnasedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod yr ymweliad â'r Eglwys yng nghyd-destun y Maes Llafur Cytûn.
  - Fel rhan o'r cwrs 5 diwrnod ar gyfer Hyfforddi a Datblygu Athrawon yn y Dyniaethau, cadwyd un diwrnod ar gyfer Addysg Grefyddol. Eleni, rhoddwyd sylw i dempled hunanarfarnu'r CYSAG a'r angen i sicrhau bod y rhain ar gael i'r Cyngor Ymgynghorol. Rhannwyd esiamplau o arfer dda mewn ysgolion yng Ngwynedd a Môn gyda'r rhai oedd ar y cwrs.

- Rhoddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau gyflwyniad gweledol i'r CYSAG ar Ddeall Safonau yng Nghyfnod Allweddol CA3, sef cwrs oedd yn cael ei ariannu gan Gymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer athrawon CA3 ac amlinellodd gynnwys y cwrs a'r themâu a oedd wedi eu rhannu'n bedair sesiwn ar wahân ac a oedd yn rhoi sylw i'r agweddau isod –

  - Deall y disgrifiadau lefel a'r negeseuon allweddol gan Gymedroli Canolog CBAC/ADAS 2010/12
  - Y tair sgil graidd ar gyfer symud ymlaen rhwng lefelau
  - Cydnabod safonau mewn gwaith disgyblion
  - Gosod tasgau a chymedroli mewnol
  - Cwestiynau, materion a phosibiliadau

  Ar ran Athrawon CA3, diolchodd i Gymdeithas CYSAGau Cymru am gefnogi a chyllido'r cwrs ac i Ynys Môn am ei chyfraniad i gostau'r cwrs.

- Dywedodd Ymgynghorydd y Dyniaethau wrth Aelodau'r CYSAG y bydd y gwasanaeth ymgynghorol cefnogol a ddarperir gan Cynnal yn dod i ben ym mis Ebrill pan fydd y GwE (Gwasanaeth Effeithlonrwydd Ysgolion) newydd yn dod i rym ac yn cymryd cyfrifoldeb am yr



DRAFT

elfen honno o'r gwasanaeth cefnogi ysgolion. Fel rhan o'r trefniadau pontio, bydd swyddi ymgynghorwyr pynciau yn cael eu disodli gan Arweinwyr System ar gyfer y rhanbarth gan gynnwys Ynys Môn a Gwynedd. Bydd yr Arweinwyr System yn bennaf gyfrifol am gydgysylltu pynciau yn hytrach nag am ddarparu hyfforddiant yn uniongyrchol, neu am ddarparu cyrsiau , ac hefyd am ddarparu cefnogaeth i grwp o ysgolion mewn perthynas â chwblhau hunanarfarniadau, paratoi ar gyfer arolygiadau a chydgysylltu gyda'r Swyddfa Addysg Leol ynghylch materion perthnasol sy'n codi. Dywedodd wrth y CYSAG mai'r tebygolrwydd yw y bydd AALl yn gofyn i'r gwasanaeth rhanbarthol ddarparu rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer cyrff CYSAG yn wyneb natur statudol eu dyletswyddau.

Dywedodd y Swyddog Ysgolion Cynradd ei fod yn deall bod Cyfarwyddwyr Addysg/Dysgu Gydol Oes y chwe awdurdod ar draws Gogledd Cymru wedi codi'r mater hwn gyda'r gwasanaeth rhanbarthol gyda golwg ar sefydlu cytundeb i ddarparu cefnogaeth ar gyfer cyrff CYSAGau. Mae angen ystyried rôl CYSAGau o ran sicrhau safonau Addysg Grefyddol o fewn y trefniadau newydd a hefyd o fewn cyd-destun yr ymgynghoriad y mae Estyn yn ei gynnal ar hyn o bryd ynghylch opsiynau ar gyfer newid ac ymestyn y cylch arolygu 6 mlynedd cyfredol o fis Medi 2013 gydag opsiwn i roi llai o rybudd  am arolygiad - y syniad yw datblygu ysgolion sy'n barod ar gyfer arolygiadau h.y. ysgolion sydd bob amser yn barod am arolygiad pryd bynnag y bydd yn digwydd.  Dywedodd y Swyddog, yn wyneb y newid arfaethedig hwn, y gall bod rheswm i'r CYSAG ystyried gofyn i ysgolion am adroddiadau hunanarfarnu ar sail reolaidd e.e. 16 o hunanarfarniadau gan ysgolion cynradd bob blwyddyn dros gyfnod o 3 blynedd a 2 o hunanarfarniadau gan ysgolion uwchradd bob blwyddyn.  Ni fydd y cymorth a roddir ar hyn o bryd gan Cynnal ar gael ar ôl Ebrill 2013.

Roedd yr Is-Gadeirydd yn cefnogi'r syniad y dylai'r CYSAG lunio ei amserlen ei hun ar gyfer archwilio adroddiadau hunanarfarnu gan ysgolion. Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai cefnogaeth AG dan y trefniadau consortia newydd a'r modd o ddarparu'r gefnogaeth honno gan yr AALl trwy gyrff CYSAGau yn cael ei drafod mewn cyfarfod rhwng y Gweinidog Addysg a'r grwpiau ffydd ar 20 Mawrth 2013.  Mewn perthynas â darparu hyfforddiant, mae potensial i Fudiad Addysg Grefyddol Cymru ddarparu cyrsiau trwy'r awdurdodau addysg sy'n tanysgrifio iddo a gwneud cyfraniad gan na fydd y ddarpariaeth honno ar gael mwyach trwy Cynnal.

Awgrymodd Ymgynghorydd y Dyniaethau y byddai'r CYSAG efallai yn dymuno ystyried gwahanol fodelau ar gyfer derbyn adroddiadau hunanarfarnu ac y gallai'r Swyddog Addysg Gynradd drafod ymarferoldeb yr amryfal opsiynau gyda Phenaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd e.e. targedu 5% neu 10% o'r ysgolion bob blwyddyn er mwyn archwilio sampl o'r adroddiadau.  Pa drefniadau bynnag a fabwysiedir, dywedodd bod angen iddynt fod yn gynaliadwy.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI:  Y Swyddog Ysgolion Cynradd i baratoi papur briffio i ymgynghori gyda grwpiau penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd ynghylch ymarferoldeb gwahanol opsiynau ar gyfer darparu adroddiadau hunanarfarnu AG i'r CYSAG fel bod modd iddo gyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro safonau AG ac addoli ar y cyd, ac adrodd yn ôl i'r CYSAG yn ei gyfarfod nesaf.**

**5 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU**

- Cyflwynwyd crynodeb o'r prif negeseuon o ohebiaeth a gafwyd gan Cymdeithas CYSAGau Cymru er gwybodaeth y CYSAG. Mewn perthynas ag enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru a swydd yr Is-Gadeirydd, dywedodd Is-Gadeirydd y CYSAG wrth yr Aelodau fod Gwynedd wedi enwebu W. M. Meredith ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd a bod enwebiad wedi ei wneud ar gyfer y Pwyllgor Gwaith.  Nid oedd CYSAG Ynys Môn yn gymwys i gynnig enwebiad o gofio bod yr Is-Gadeirydd wedi ei benodi i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith am gyfnod o 3 blynedd ac nid oes gan unrhyw gorff CYSAG hawl i gael dau gynrychiolydd ar y Pwyllgor Gwaith.

  Dygodd y Swyddog Ysgolion Cynradd sylw'r Aelodau at ohebiaeth dyddiedig 27 Chwefror 2013 a gafwyd gan Goleg y Drindod Dewi Sant yn rhoi rhybudd, oherwydd cyfyngiadau cyllidol, na fydd y newyddlen AG ond yn cael ei gyhoeddi ar lein o Haf 2013 ymlaen.  Gofynnir

i AALI sy'n tanysgrifio i'r newyddlen gyfrannu £500 tuag at gostau cyhoeddi a rhoddir cyfrinair iddynt gael gweld y fersiwn ar lein.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth yn yr ohebiaeth gan Gymdeithas CYSAGau Cymru.**
- **Cefnogi parhau i danysgrifio i'r newyddlen AG am y ffi a benodwyd.**

- Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yn Merthyr Tudful ar 22 Tachwedd 2012 er gwybodaeth i'r CYSAG.

  Dygodd yr Is-Gadeirydd sylw'r Aelodau at brif uchafbwyntiau'r cyfarfod fel a ganlyn:

  - Y cyflwyniad gan Jonathan Martin ac Andrew Morton o Addysg Grefyddol a Chaplaniaeth mewn Addysg Bellach y gofynnwyd i gynrychiolwyr y CYSAG ei gyflwyno i'w cyrff CYSAGau eu hunain.
  - Adroddiad y Cyngor AG gan Tania ap Sion.
  - Cyflwyniad ar Addysg Grefyddol yn y Sector Addysg Uwch gan Lynda Maddock a Sue James. Atgoffwyd yr Aelodau gan yr Is-Gadeirydd bod y CYSAG hefyd yn gyfrifol am fonitro'r ddarpariaeth o hyfforddiant ar gyfer athrawon AG yn ei ardal.
  - Yr adolygiad thematig o AG gan Estyn y disgwylir adroddiad arno rhyw dro yn ystod Haf 2013. Pwysleisiwyd arwyddocâd Cymdeithas CYSAGau Cymru fel corff sy'n cynrychioli ac yn hyrwyddo buddiannau AG fel y dangosir gan yr adolygiad.
  - Y Marc Ansawdd Addysg Grefyddol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei dreialu yng Nghymru ac adroddir ar y canlyniadau i Gymdeithas CYSAGau Cymru fel bod modd cael trafodaeth ystyrlon ynghylch y Marc Ansawdd.

- Dywedodd Ymgynghorydd y Dyniaethau wrth yr Aelodau bod Cymdeithas CYSAGau Cymru yn bwriadu cynnal Cynhadledd Genedlaethol ar 10 Hydref 2013 mewn man i'w drefnu ac y bydd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn bresennol.
- Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gopi o adroddiad adolygu Cymdeithas CYSAGau Cymru ar argymhellion ynghylch CYSAGau a'r Gymuned Leol. O gofio'r cyfyngiadau yn Ynys Môn o ran cymuned rhyng-ffydd a chyfleon i ryngweithio ag ymwneud yn lleol â materion rhyng-ffydd, roedd y CYSAG yn cytuno nad oedd rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad yn berthnasol i Ynys Môn a **phenderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**
- Dywedwyd wrth Aelodau'r CYSAG y byddai cyfarfod nesaf Cymdeithas CYSAGau Cymru yng Nghasnewydd ar 22 Mawrth ac y byddai'r cyfarfod ar ôl hwnnw yn cael ei gynnal ar 19 Mehefin 2013 yng Nghaernarfon. **Penderfynwyd y byddai'r Athro Euros Jones yn mynychu'r cyfarfod ar 19 Mehefin yn lle Mr. Rheinallt Thomas a gyflwynodd ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw.**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN AR GYFER 2011/12

Cyflwynwyd fersiwn wedi ei diweddaru o Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2011/12. Cyflwynodd y Cadeirydd ei ragair i'r Adroddiad Blynyddol a fyddai'n cael ei ymgorffori yn y copi a fyddai'n cael ei anfon i Lywodraeth Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i Ymgynghorydd y Dyniaethau am ei gwaith ar yr Adroddiad Blynyddol a hefyd am ei chefnogaeth a'i hymrwymiad gwerthfawr a diflino i'r CYSAG yn ei rôl fel Ymgynghorydd y Dyniaethau.

**Y Cynghorydd E.G.Davies**
**Cadeirydd**

DRAFFT

DRAFT

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn

# Medi 2011 – Awst 2012

Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes
Dr Gwynne Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Monitro safonau Addysg Grefyddol
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol ac APADGOS
2.6 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2011-12
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Pleser unwaith yn rhagor, fel Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2011/12. Gwelir fod llwyddiannau ein hysgolion ym Môn ym maes Addysg Grefyddol yn cael eu hadlewyrchu o'i mewn.

'Rwy'n ddiolchgar yn gyntaf oll i'r disgyblion am y modd ymroddedig y maent wedi ymdrin â'r pwnc ynghyd â chefnogaeth yr athrawon. Mae ffyddlondeb aelodau CYSAG i'r cyfarfodydd i'w gwerthfawrogi a'r gefnogaeth a dderbynnir gan y Swyddogion.

Teimlaf ei fod ond yn briodol, gan ein bod yn wynebu cyfnod newydd ym myd addysg yng Ngogledd Cymru, i gyfeirio at y gefnogaeth amhrisiadwy a ddaeth i'n rhan o gyfeiriad Cwmni CYNNAL. Yn y cyfnod diwethaf yma 'rydym wedi elwa o fedrusrwydd ac arbenigedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau, Miss Bethan James, ynglŷn â'r pwnc sydd yn amlwg mor agos at ei chalon.

Diolch yn fawr a dymuniadau gorau.

Cynghorydd Eurfryn G Davies

Cadeirydd CYSAG Ynys Môn, 2011-12

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig yn dilyn Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

### 2.3 Monitro safonau Addysg Grefyddol

Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

Mae CYSAG Ynys Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.;
- dderbyn adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL;

### 2.3.1 Adroddiadau arolygu ESTYN (Fframwaith Arolygu Newydd)

Ers mis Medi 2010, mae'r trefniadau arolygu yn canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol:

- **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
- **Cwestiwn Allweddol 2: Pam for dda yw'r ddarpariaeth?**
- **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Nid yw'r adroddiadau arolygu yn cyfeirio at bynciau penodol.
Ni chyflwynwyd adroddiadau arolygu i sylw CYSAG Ynys Môn yn ystod Hydref 2011-12.

### 2.3.2 Y drefn hunan arfarnu

Mae Cwmni Cynnal wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Cyfeirir athrawon hefyd at y tri chwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?

Penderfynwyd yng nghyfarfod 13 Mehefin 2005 y byddai CYSAG Ynys Môn yn cael copi o hunan arfarniad ysgolion a arolygir pan nad oes adroddiad penodol ar Addysg Grefyddol, yn y flwyddyn pan arolygir yr ysgol. Trafodwyd y trefniadau monitro yn y cyfarfod ar 12 Hydref 2010 a gofynnwyd i'r swyddogion ystyried ffordd ymarferol o adrodd yn ôl i'r CYSAG ar safonau addysg grefyddol ysgolion y sir. Penderfynwyd yn y cyfarfod ar 14 Chwefror 2011 i barhau â'r drefn bresennol ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Ynys Môn a phenaethiaid ysgolion Ynys Môn wedi cymeradwyo'r templed newydd a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Bydd clerc CYSAG Ynys Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau.

Derbyniwyd 7 adroddiad hunan arfarniad gan benaethiaid ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn:

Mae'r adroddiadau yn nodi hunan arfarniad yr ysgol mewn ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o'r fframwaith arolygu newydd. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | 1 | 6 | | | 1 | 6 | | | 1 | 6 | | |

| Cyfanswm | 1 | 6 | | | 1 | 6 | | | 1 | 6 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- gallu'r disgyblion i ddisgrifio mannau addoli a gwahanol ddulliau o addoli;
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddisgrifio nodweddion dathliadau a defodau crefyddol;
- gallu'r disgyblion i fynegi eu teimladau a'u barnau ar faterion crefyddol a moesol yn aeddfed iawn;
- cyfraniad addysg grefyddol i gynnydd y disgyblion yn eu sgiliau trawsgwricwlaidd;
- gallu'r mwyafrif o ddisgyblion i gymharu â chyferbynnu arferion crefyddol;
- cynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu gallu i ymdrin â chwestiynau sylfaenol, a
- bod llawer o'r disgyblion yn dechrau dod i ddeall nad oes un ateb yn unig i gwestiynau mawr fywyd.

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r:

- angen i ddatblygu portffolio ysgol addysg grefyddol;
- angen i ddatblygu hyder y disgyblion fel eu bod yn gallu holi cwestiynau sy'n codi o brofiadau personol a chrefyddol, a'r
- angen i ddatblygu dealltwriaeth o grefyddau eraill.

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- wybodaeth bynciol da'r athrawon a'u parodrwydd i fynychu cyrsiau hyfforddiant;
- rhan weithredol y disgyblion yn y drefn gynllunio mewn addysg grefyddol;
- yr amrywiaeth o ddulliau addysgu a ddefnyddir er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn gan yr holl ddisgyblion;
- yr ymweliadau a'r ymwelwyr sy'n ysgogi diddordeb y disgyblion mewn addysg grefyddol;
- arweiniad y cydlynydd pwnc wrth fonitro'r pwnc yn flynyddol, ac
- amcanion clir a chyfleoedd i bennu meini prawf llwyddiant mewn gwersi addysg grefyddol.

.

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae:

- sicrhau mwy o gyfleoedd i ymweld ag addoldai crefyddau'r Byd, a'r angen i
- ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o gwestiynau sylfaenol;

## Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- naws ysbrydol ac addolgar y sesiynau addoli ar y cyd;
- cyfranogiad y dysgwyr, naill ai trwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw neu trwy rannu teimladau ar y pryd;
- cyfraniadau arweinwyr crefyddol lleol;
- amserlen thematig ysgol gyfan ar gyfer y sesiynau addoli ar y cyd;
- y defnydd o straeon Beiblaidd a straeon moesol fel sbardun i'r sesiynau addoli ar y cyd;

- y cyfnod myfyrio sy'n nodwedd o'r addoli ar y cyd;

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i arwain gwasanaethau addoli ar y cyd,
- defnyddio mwy o gyflwyniadau aml-gyfryngol yn y sesiynau addoli ar y cyd.

### 2.3.3 Deilliannau mewn addysg grefyddol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Cyflwynir canlyniadau CA3 (Atodiad 3.5) er wybodaeth yn unig. Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Nid yw'r disgyblion yn sefyll yr un profion nac yn ymateb i'r un tasgau asesu ar draws y sir ac nid yw athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i safoni gwaith eu disgyblion gydag adrannau eraill. Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Ynys Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Trefnwyd un cwrs hyfforddi eleni er mwyn cefnogi adrannau wrth iddynt ystyried, *Pa mor dda yw cyflawniad a chynnydd disgyblion CA3?* Roedd disgwyl bod pob adran wedi cyflwyno portffolios CA3 i sylw safonwyr allanol erbyn Gwanwyn 2012.

- Aseswyd 377 o ddisgyblion CA3 eleni.
- Derbyniwyd data asesiadau athrawon o safonau disgyblion CA3 mewn Addysg Grefyddol o 3 (allan o 5) o ysgolion uwchradd yr awdurdod. Nid oedd yr ysgol arbennig wedi cyflwyno data.
- Cyflawnodd 76.9% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 76.7% i 77.2%;
- Cyflawnodd 16.9% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol.
- Cyflawnodd 10.1% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion mewn 3 ysgol.
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 1 ysgol.
- Nid oedd un disgybl yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r drefn o adrodd ar ganlyniadau arholiadau allanol wedi newid eto eleni. Mae'r amrediad o bynciau, byrddau arholi ac arholiadau modylol yn golygu ei fod yn anodd pennu sgorau cyfartalog yr holl bynciol. Amhriodol felly yw cymharu perfformiadau ysgolion yn erbyn ei gilydd . Fodd bynnag mae'r wybodaeth yma ar gael i'r ysgolion a disgwylir i benaethiaid adrannau addysg grefyddol i gyfeirio at berfformiad eu disgyblion mewn pynciau eraill wrth iddynt hunan arfarnu safonau'r pwnc.

Cyflwynir yma ganlyniadau ar gyfer y disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2010.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn2011 | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2011** | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |
| **2010** | 22 | 54 | 76 | 27.3 | 48.1 | 42.1 | 40.9 | 90.7 | 76.3 | 100 | 100 | 100 | 36 | 48 | 44 |

Canlyniadau da iawn.

- 146 o ymgeiswyr o bob ysgol yn Ynys Môn.
- Mae'r niferoedd yn amrywio o 9 disgybl mewn un ysgol i 42 mewn ysgol arall.
- Llwyddodd 46.6% o'r ymgeiswyr i ennill gradd A*/A (rhagoriaeth)
- Llwyddodd 84.2% o'r ymgeiswyr i ennill cymhwyster Lefel 2 gydag 100% yn ennill cymhwyster Lefel 1 .
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 47.
- Mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis AG yn ysgolion Ynys Môn (B 46 : G 100).
- Mae canlyniadau'r genethod yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 49 o'i gymharu â sgôr cyfartalog y bechgyn, 41. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU.
- Bydd cyrsiau hyfforddi ac ymweliadau ysgol eleni yn ystyried y cwestiynau canlynol:
  - ➢ *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
  - ➢ *Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill am y ffordd orau o gefnogi'r bechgyn wrth iddynt baratoi ar yr arholiadau allanol? Pa strategaethau eraill y dylid eu hystyried wrth geisio cau'r bwlch rhwng y genethod a'r bechgyn?*
  - ➢ *A yw'r pwnc yn hylaw yn yr ysgol?*

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Cyflwynir yma ganlyniadau ar gyfer y disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2010. Mae'r disgyblion yma wedi dilyn cwrs byr TGAU ac wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau yn hytrach na pharhau a'u hastudiaethau er mwyn ennill cymhwyster cwrs cyfan.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn2011 | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2011** | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |
| **2010** | 70 | 136 | 206 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 61.4 | 91.2 | 81.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 24 | 22 |

**Canlyniadau da.**

89 o ymgeiswyr o 2 o ysgolion Ynys Môn.

- Mae'r niferoedd yn amrywio o 2 disgybl mewn un ysgol i 67 mewn ysgol arall.

- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 22 sy’n awgrymu bod yr ymgeiswyr hyn wedi cyrraedd safon C (Lefel 2) neu uwch yn y cwrs byr.
- Mae ychydig mwy o enethod na bechgyn yn dewis y pwnc yn ysgolion Ynys Môn (B 32 : G 37).
- Mae canlyniadau’r genethod yn rhagori ar ganlyniadau’r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 24 o’i gymharu â sgôr cyfartalog y bechgyn, 20. Fodd bynnag mae sgôr cyfartalog y pwnc yn awgrymu nad yw’r ymgeiswyr yn tangyflawni mewn astudiaethau crefyddol.
- Bydd cyrsiau hyfforddi ac ymweliadau ysgol eleni yn ystyried y cwestiynau canlynol:
  - *Sut mae adrannau yn gweinyddu ac addysgu’r pwnc i’r disgyblion sy’n dewis dilyn cwrs byr mewn Astudiaethau Crefyddol?*

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Ynys Môn yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg. Wrth ystyried blaenoriaethau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn 2011-14 mae amcan craidd 2 yn berthnasol i GYSAG Ynys Môn.

**Amcan Craidd 2 – Pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael mynediad i ystod gynhwysfawr o addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu**

Pwrpas yr Amcan Craidd hwn yn sicrhau bod *‘yr holl blant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial yn llawn ac yn datblygu sgiliau ar gyfer bywyd’.*

Mae Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth ariannol i GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifoldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2011-12) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

## Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yn derbyn cefnogaeth gan GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau a’r athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) yn ymweld ag ysgolion fel rhan o’r rhaglen ‘hawl a haeddiant’. Cafwyd cefnogaeth tair athrawes ymgynghorol yn ystod 2011-12:

- Mrs Leusa Jones (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon uwchradd
- Miss Debbie Humphreys: (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.
- Mrs Nia Wyn Jones (0.5 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.

Mae’r tîm ymgynghorol yn cynorthwyo athrawon wrth iddynt gynllunio’u rhaglenni astudio a’u cynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Mae datblygu medrau meddwl a sgiliau hanfodol y dysgwyr yn flaenoriaeth i athrawon y sir. Mae

CYNNAL yn cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Mae cyfraniad yr athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a/neu'r athrawon ymgynghorol yn cyflwyno adroddiad tymhorol i sylw CYSAG. Mae'r cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith a wneir gydag ysgolion yr AALl. Prif ffocws trafodaethau 2011-12 oedd:

- cefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn Lleol a'r drefn hunan arfarnu newydd;
- darparu cyrsiau hyfforddi, *e.e. adborth ar waith addysg grefyddol disgyblion cynradd, 'dewisiadau a phenderfyniadau' fel cyd-destun ADCDF mewn gwersi addysg grefyddol, datblygu ysgrifennu mewn addysg grefyddol.*
- cyfeirio ysgolion at adnoddau addysgu newydd, *e.e. Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3 a Phroffiliau enghreifftiol dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2011)*
- addoli ar y cyd. Mae CYNNAL wedi adolygu'r canllawiau ac wedi datblygu adnoddau enghreifftiol i ysgolion cynradd.
- ymchwil gweithredu dwy athrawes addysg grefyddol uwchradd oedd yn rhan o Gymuned Dysgu Broffesiynol Gogledd Orllewin Cymru ar 'Ddatblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu';
- trefn anwytho tair athrawes addysg grefyddol newid gymhwyso;
- tri rhifyn o 'Syniadau Addysg Grefyddol' a baratowyd gan dîm ymgynghorol addysg grefyddol CYNNAL. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i ysgolion ar draws Cymru.
  - 'Sgwn i pam ei fod fel hyn?
  - ]'Sgwn i pam eu bod yn meddwl fel hyn?
  - 'Sgwn i os oes ffydd ar waith yn eich ardal chi?
- safwe Moodle CYNNAL fel cyfrwng i rannu adnoddau a chanllawiau i athrawon wrth iddynt baratoi gweithgareddau addysg grefyddol.

Pob tymor, bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL yw cadeirydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol eleni. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol.

## Rhaglen Hyfforddiant Mewn Swydd Addysg Grefyddol

### Adroddiad ar hyfforddiant mewn swydd 2011-12

Fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Addysg, mae CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol) yn darparu rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon yr Awdurdod. Mae'r rhaglen hyfforddi yn ffordd o sicrhau bod athrawon yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd, yn rhannu arferion da ac yn cydweithio i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu a deunyddiau pwrpasol. Anelir at sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn ymateb i anghenion

ysgolion ac athrawon trwy ymgynghori gyda phenaethiaid, athrawon a thiwtoriaid proffesiynol yn yr ysgolion. Yn ogystal â hynny, rhoddir sylw i flaenoriaethau'r Awdurdod, i sylwadau ESTYN, ac i sylwadau sydd yn ymddangos mewn adroddiadau arolygol.

Mae penaethiaid cynradd ac uwchradd y sir wedi cytuno i gau'r ysgolion am ddau ddiwrnod er mwyn cynnal cyrsiau hyfforddiant ysgol ganolog neu fel consortiwm. Y tiwtoriaid proffesiynol oedd yn gyfrifol am ddewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion uwchradd a'r penaethiaid oedd yn dewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion cynradd.

**Cyrsiau Cynradd Ebrill 2011 – Mawrth 2012**

| Enw'r cwrs | Nifer o athrawon o Ynys Môn |
|---|---|
| **Clwstwr (Hydref)**<br>Asesu: Adborth ar waith disgyblion<br>(1 sesiwn Addysg Grefyddol) | 16 |
| **Clwstwr (Gwanwyn)**<br>Dewisiadau a Phenderfyniadau: ADCDF a'r Dyniaethau<br>(1 sesiwn Addysg Grefyddol) | 12 |
| **HADA** (cwrs Dyniaethau 5 diwrnod oedd yn cynnwys diwrnod o hyfforddiant ar 'Ymateb i ofynion y Maes Llafur Cytûn') | 3 |

**Cyrsiau Uwchradd Ebrill 2011 – Mawrth 2012**

| Enw'r Cwrs | Nifer o athrawon o Ynys Môn |
|---|---|
| **Consortiwm**<br>Addysg Grefyddol: Pa mor dda yw cyflawniad a chynnydd disgyblion CA3? | 8 |
| **Consortiwm**<br>Datblygu sgiliau ysgrifennu dysgwyr mewn Addysg Grefyddol | 8 |

**Hyfforddiant ac ymweliadau arbennig dan nawdd CYSAGau Gwynedd a Môn**
Ni chynhaliwyd cynhadledd HMS dan nawdd CYSAG Ynys Môn i athrawon ac aelodau Gwynedd a Môn yn ystod 2011-12.

**Cyrsiau HMS 2012-13**

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw penaethiaid cynradd wrth iddynt lunio'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Beth yw ystyr y Nadolig? (Addysg Grefyddol CA1 a CA2)
- **HADA** (cwrs Dyniaethau 5 diwrnod sy'n cynnwys diwrnod o hyfforddiant ar 'Ymateb i ofynion y Maes Llafur Cytûn')

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw'r tiwtoriaid proffesiynol uwchradd a'r paneli pwnc wrth iddynt lunio rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Cau'r Bwlch trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol
- Astudiaethau Crefyddol TGAU dan arweiniad CBAC
- Data a dirgelion yn y Dyniaethau: datblygu sgiliau darllen CA3

## 2.5 Addysg Grefyddol ac APADGOS

2011-12 oedd y flwyddyn olaf ar gyfer cyflwyno portffolios addysg grefyddol i sylw safonwyr allanol er mwyn safoni asesiadau athrawon CA3. Dosbarthwyd canllawiau i ysgolion ym Mawrth 2011:

*Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3*
*Proffiliau enghreifftiol dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3*

## 2.6 Swyddogaeth CYSAG

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd**

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Dosbarthwyd copi o 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008) i'r aelodau.

- Mae CYSAG Ynys Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Gwahoddwyd pennaeth cynradd i gyfarfod CYSAG Môn ar 18 Hydref 2011. Cynhaliwyd trafodaeth gynhwysfawr ar arferion addoli ar y cyd yn y sector cynradd. Amlinellwyd y gofynion statudol a chyfeiriwyd at yr adnoddau oedd ar gael i athrawon ar wefan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Addysg yng Nghymru.

- Mae aelodau CYSAG Ynys Môn o'r farn bod ansawdd a phrofiad addoli ar y cyd yn bwysicach na gorfodi addoli ar y cyd dyddiol ar ysgolion. Fodd bynnag mae'n ofynnol ar GYSAG i sicrhau bod y gofynion statudol yn cael eu gweithredu.

- Dosbarthwyd holiadur ar ran CYSAG Môn mewn cyfarfod busnes o 40 o benaethiaid cynradd. Cwblhaodd 22 yr holiadur ac roedd yr ymatebion fel y ganlyn:
    - Roedd 8 ysgol yn cadarnhau eu bod yn cynnal gweithred ddyddiol addoli ar y cyd.

- ➢ O’r ysgolion hynny nad oeddent yn addoli ar y cyd yn ddyddiol, roedd un ysgol yn addoli ar y cyd ddwywaith yr wythnos, tair ysgol yn addoli ar y cyd ddwy i deirgwaith yr wythnos, chwe ysgol yn addoli ar y cyd deirgwaith yr wythnos a phedair ysgol yn addoli ar y cyd pedair gwaith yr wythnos.
- ➢ Roedd hyd y sesiwn addoli ar y cyd yn amrywio yn yr ysgolion yr oedant yn cynnal sesiwn dyddiol ac yn yr ysgolion Hynyd nad oeddent yn addoli ar y cyd yn ddyddiol fel ei gilydd o 6-10 munud i dros ugain munud.
- ➢ Roedd 12 ysgol o’r farn bod yna werth i gynnal cyfnod dyddiol addoli ar y cyd a 5 ysgol yn credu nad oedd gwerth iddo; roedd 3 ysgol yn ansicr eu barn ac ni fu i ddwy ysgol ymateb i’r cwestiwn hwn.
- ➢ Nodwyd sawl rheswm o blaid ac yn erbyn cynnal gweithred ddyddiol ar y cyd.

- Mae’r tîm ymgynghorol addysg grefyddol wedi paratoi canllawiau i ysgolion cynradd Gwynedd a Môn. Mae'r rhain yn cynnwys: amserlenni thematig ar gyfer pob tymor ysgol, rhestr o lyfrau arweiniol, gwefannau sy’n darparu gwasanaethau addoli ar y cyd parod, a gwasanaethau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal. Mae gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yn Ynys Môn.

- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi paratoi arweiniad ar addoli ar y cyd i ysgolion a ChYSAGau, ‘Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd’ (www.wasacre.org.uk <http://www.wasacre.org.uk> )

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Ynys Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2011-12

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Y Diacon Stephen Francis Roe |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mr Rheinallt Thomas |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Parch. Peter McLean |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | *gwag* |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mr Martin Wise |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mrs Mefys Edwards |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | *gwag* |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | *gwag* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | *gwag* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

**Cynghorydd E. G. Davies (Cadeirydd)**
Cynghorydd Richard A Dew
Cynghorydd Eric Jones
Cynghorydd R Llewelyn Jones
Cynghorydd Gwilym O Jones.
Cynghorydd Peter Rogers.
Cynghorydd W T Hughes
Cynghorydd G O Parry (M.B.E)

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Mrs Helen Roberts | Prifysgol Bangor |
| Y Parchedig Elwyn Jones | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Dr Gwynne Jones | Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes |
| Mr Gareth Jones | Swyddog Addysg: Ysgolion Cynradd a chlerc CYSAG Môn |
| Miss Bethan James | Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL |
| Mrs Leusa Jones | ) |
| Miss Debbie Humphreys | )Athrawon Ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Nia Wyn Jones | ) |
| Mrs Ann Holmes | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2011-12

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2011 – 2012, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

18 Hydref 2011
21 Chwefror 2012
18 Gorffennaf 2012

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

a) **Cyfarfod 18 Hydref 2011**
- Addoli ar y Cyd: y gofynion statudol
- Hunan arfarniadau ysgolion: Cylch y Garn ac Ysgol y Graig
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Llangefni ar 24 Mehefin 2011
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2010/2011
- Adroddiad Blynyddol Mudiad Addysg Grefyddol Cymru 2010-11
- Gohebiaeth

b) **Cyfarfod 21 Chwefror 2012**
- Addoli ar y cyd: Adrodd ar ymateb penaethiaid cynradd Môn i holiadur.
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn (terfynol) 2010/11
- Safonau Addysg Grefyddol
- Hunan arfarniadau ysgolion: Rhoscolyn, Bryngwran
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 24 Tachwedd 2011.
- Cefnogaeth y Gwasanaeth Ymgynghorol
- Gohebiaeth

c) **Cyfarfod 18 Gorffennaf 2012**
- Hunan arfarniadau Ysgolion: Carreglefn, Y Ffridd, Talwrn.
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Aberaeron ar 30 Mawrth 2012.
- Addoli ar y cyd
- Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol
- Gohebiaeth

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Mr Eurfryn Davies (cadeirydd CYSAG Ynys Môn)

- Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Dr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Addysg Gydol Oes
Mr Gareth Jones, Swyddog Addysg – Ysgolion Cynradd sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Leusa Jones, Miss Debbie Humphreys, Mrs Nia Wyn Jones: athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol ran amser.
Mrs Ann Holmes, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

**3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Môn

## 3.5 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Ynys Môn** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Ynys Môn** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Ynys Môn** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Gareth Jones** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

| Addysg Grefyddol | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol | | | | | | | |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol | | | | | | | |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| Addoli ar y Cyd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| % L1<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| % L2<br>B G Σ | |
| % L1<br>B G Σ | |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Mehefin 2013.**

**CYSAG.**

Gofynnir am farn penaethiaid ar y canlynol.

Mae'n ofyn statudol fod CYSAG Ynys Môn yn monitro ansawdd safonau Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Yn y gorffennol gwnaethpwyd hyn drwy sylwadau ymgynghorydd dyniaethau Cynnal ac adroddiadau Estyn. Nid yw hyn yn bosib o dan drefniadau newydd byd addysg yn enwedig os yw cylch arolygu Estyn hefyd yn newid. Un ffordd i fonitro yw casglu adroddiadau hunan arfarnu ysgolion unigol. Mae gan CYSAG fodel o arfer da i'w rannu gydag ysgolion. Mae CYSAG yn cynnig trefn o gasglu'r adroddiadau ar sail cylch 3 blynedd fel bod ysgol unigol yn cyflwyno adroddiad hunan arfarnu pob tair blynedd i sylw CYSAG fel hyn-

| Cylch | Blwyddyn Addysgol | Nifer ysgolion cynradd | Nifer ysgolion uwchradd ac arbennig |
|---|---|---|---|
| 1 | 13/14 | 16 | 2 |
| 2 | 14/15 | 16 | 2 |
| 3 | 15/16 | 16 | 2 |

**A ydych yn cytuno gyda hyn? Os na, oes gennych ddull arall o fonitro safonau i'w gynnig?**

***SACRE***

***June 2013.***

*Headteachers are asked for their opinion on the following.*

*It is a statutory requirement that Anglesey's SACRE monitors the standards of Religious Education and collective worship. In the past this was done through Cynnal's Humanities Advisor and Estyn reports. This is no longer possible due to changes within education and especially if Estyn's cycle of inspections is to change. One way to monitor standards is to collect self evaluation reports from individual schools. SACRE have a model of good practice to share with schools. SACRE proposes a system of collecting the reports within a 3 year cycle so that individual schools present a report to SACRE every 3 years on the following lines-*

| Cycle | School Year | Number of primary schools | Number of secondary schools and special |
|---|---|---|---|
| 1 | 13/14 | 16 | 2 |
| 2 | 14/15 | 16 | 2 |
| 3 | 15/16 | 16 | 2 |

***Do you agree with this? If not, have you another way of monitoring standards to offer?***

**Diolch**
**Gareth Jones**
**Clerc CYSAG / SACRE Clerk**

This page is intentionally left blank

*Cadeirydd*/Chairman:
Revd Canon Edward Evans

*Ysgrifennydd*/Secretary:
Libby Jones
4 Patten Close
Hawarden
Deeside
CH5 3TH
*e-bost*/e-mail: libby.jones@wrexham.gov.uk
*ffôn/ tel :* 01978 317614

5 Mehefin 2013

Annwyl Aelod

Dyma amgau'r dogfennau perthnasol ar gyfer cyfarfod CCYSAGauC ar 19 Mehefin 2013. Cychwynir y cyfarfod am 10.30yb gyda coffi ar gael o 10yb ymlaen. Rydym yn anelu i orffen erbyn 3yp.

Cynhelir y cyfarfod yn y Cyngor Chamber, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon, Stryd Shirehall , Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH. (amgeir cyfarwyddiadau).

Yn ddiffuant,

LJones

Libby Jones
**Ysgrifennydd CCYSAGauC**

---

5 June 2013

Dear Member

I enclose the relevant documents for the WASACRE meeting on 19 June 2013. The meeting begins at 10.30am with coffee available from 10am, and will finish around 3pm.

The meeting will be held in the Council Chamber, Caernarfon Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH. Travel directions are enclosed.

Yours sincerely,

LJones

Libby Jones
**Secretary to WASACRE**

**Cyfarfod CCYSAGauC, Newport, 22 Mawrth 2013 /**
***Wales Association of SACREs meeting, Newport, 22 March 2013***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas<br>Eurfryn Davies<br>Bethan James<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward Evans<br>Carys Pritchard<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Vicky Thomas<br>Michael Gray<br>Enfys Hawthorn<br>Martyn Western<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Mary Parry<br>Helen Gibbon<br>Gwyneth Thomas<br><br>**Ceredigion**<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord<br>Nicholas Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord<br>**Gavin Craigen**<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br><br>**Gwynedd**<br>W M Meredith<br>Bethan James<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br>Susan Cave<br>Sharon Perry-Phillips<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br>Janice Dudley<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Vicky Thomas<br>Sally Northcott<br>David Williams<br>Huw Stephen<br>Heather Vaughan<br>Soam Sharma<br>A Davidson<br>Neata Baicher JP<br>Val Delahaye<br>Sally Mlewa<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire*** | **Powys**<br>John Mitson<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Carys Pritchard<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Vicky Thomas<br><br>**Torfaen**<br>Vicky Thomas<br>Margaret Oelmann<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Carys Pritchard<br>Dafydd Treharne<br>Ramez Delpak<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Leslie Francis (Canolfan y Santes Fair / St Mary's Centre)<br>Ben Wigley (REMW)<br>Tudor Thomas (WJEC) |

**Cofnodion/Minutes**

| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad a chroeso /Introduction and welcome.**<br>**Cyflwynodd y Cadeirydd, Edward Evans, Faer Casnewydd, y Cynghorydd John Guy, a groesawodd bawb i'r cyfarfod yng Nghasnewydd. Disgrifiodd Gasnewydd fel dinas â chyfoeth o amrywiaeth, ac aeth yn ei flaen i ddweud bod sawl gwahanol ffydd yn cael ei chynrychioli ar GYSAG Casnewydd. Nododd fod CCYSAGauC wedi bod yn gefnogol i fentrau Cydlyniant Cymunedol, a'i bod yn helpu i sicrhau bod AG yn cael ei haddysgu'n dda yn yr holl ysgolion. Yr oedd darpariaeth dda hefyd ar gyfer Addoli ar y Cyd. Yn 2011 yr oedd Casnewydd wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer yr Ŵyl AG genedlaethol. Yr oedd llawer o ysgolion wedi cymryd rhan, ac yr oedd y gwaith hwnnw'n parhau. Yr oedd CCYSAGauC yn bwysig oherwydd ei bod yn darparu'r fforwm a'r llais ar gyfer AG ledled Cymru. Wrth gloi ei anerchiad, cynigiodd y Maer ei ddymuniadau gorau ar gyfer y cyfarfod.**<br><br>**Wedi hyn cafwyd cyflwyniad gan Wasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Awdurdod Addysg Gwent (GEMS), a oedd yn darparu cymorth i blant o Leiafrifoedd Ethnig yn ardal Casnewydd. Yr oedd 94 o wahanol ieithoedd, gan gynnwys tafodieithoedd, yn cael eu siarad yn ardal Casnewydd, ac yr oedd y tîm yn darparu cymorth iaith a chymorth hyfforddiant ar eu cyfer. Yr oeddynt hefyd yn gweithio gydag ymgyrch 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' ac Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost. Yr oedd y gwasanaeth wedi trefnu amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer eu prosiect 'Gweld y Byd drwy Ein Llygaid Ni', a oedd yn canolbwyntio ar wahanol wledydd gan gynnwys Tsieina a'r India. Cyflwynodd cynrychiolwyr y gwasanaeth wybodaeth am Lwybr Ffydd GEMS (rhannwyd taflen yn y cyfarfod) a Mis Hanes GRT, a fyddai'n destun dathliad yng Nghaerdydd eleni ar Fehefin** | **1. Cyflwyniad a chroeso /Introduction and welcome.**<br>**Chair, Edward Evans introduced the Mayor of Newport, Cllr John Guy who then welcomed everyone to the meeting in Newport. He described Newport as a city with a wealth of diversity and went on to say that Newport SACRE has many different faiths represented. He noted that WASACRE has been supportive of Community Cohesion initiatives and helps to ensure that RE is taught well in all schools. There is also good provision for Collective Worship. In 2011 Newport organised a series of events for the National RE festival. Many schools took part and that work is on-going. WASACRE is important because it provides the forum and the voice for RE across wales. The Mayor concluded his address by offering well wishes for the meeting.**<br><br>**This was followed by a presentation by the Gwent Education Minority-ethnic Service who provides support for children who are from Minority Ethnic groups in the Newport area. There are 94 different languages spoken in the Newport area including dialects, for which the team develop language and tuition support. They also work with Show Racism the Red Card and the Holocaust Memorial Day Trust. The service has organised a variety of activities for their 'See the World through Ours Eyes' project focussing on different countries including China and India. They informed members of the GEMS Faith Trail (leaflet shared in the meeting) and GRT History month for which there will be a celebration in Cardiff this year on June 5th. There website address was shared www.newportlearn.net/inclusion/ and members were invited to login as 'guest' to** |

| | |
|---|---|
| **5ed. Rhannwyd cyfeiriad eu gwefan, www.newportlearn.net/inclusion/ a gwahoddwyd yr aelodau i fewngofnodi fel 'gwestai' er mwyn cael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r gwasanaethau yr oedd GEMS yn eu darparu.** | **find out more information about any of the services GEMS provide.** |
| **2. Adfyfyrio tawel / Quiet reflection**<br>**Darllenodd y Cadeirydd, Edward Evans, ddwy gerdd, un ohonynt o'r enw 'The Donkey', gan G. K. Chesterton, a gofynnodd i'r aelodau fyfyrio ar ddigwyddiadau Wythnos y Pasg.** | **2. Adfyfyrio tawel / Quiet reflection**<br>**Chair Edward Evans read two poems, one entitled 'The Donkey' by E A Chesterton and asked members to reflect on the events of Holy Week.** |
| **3. Ymddiheuriadau / Apologies**<br>**Lynda Maddock , Jen Malcolm, Christine Abbas, y Cynghorydd Bob Poole, Claire Lane, Meinir Loader.** | **3. Ymddiheuriadau / Apologies**<br>**Lynda Maddock , Jen Malcolm, Christine Abbas, Cllr Bob Poole, Claire Lane, Meinir Loader.** |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Merthyr Tudful, Tachwedd 23ain 2012 / Minutes of meeting held in Merthyr Tydfil, 23 November 2012**<br>**Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.** | **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Merthyr Tudful, 23 Tachwedd 2012 / Minutes of meeting held in Merthyr Tydfil, 23 November 2012**<br>**The minutes were accepted as a true record of the meeting.** |
| **5. Materion yn codi / Matters arising**<br>**Eitem 6, 3ydd pwynt: rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â lansiad y Grŵp Seneddol Hollbleidiol y bu Tania ap Siôn yn bresennol ynddo ym Mehefin 2012. Yr oedd yr ymchwiliad wedi ei gwblhau, ac yr oedd copïau o'r adroddiad ar gael ar wefan CCYSAGauC. Yr oedd yn cyflwyno darlun a oedd yn peri gofid ynglŷn â'r sefyllfa yn Lloegr o ran y cyflenwad o athrawon AG a'r cymorth a oedd ar gael i athrawon AG. Er enghraifft, yr oedd AG yn cael ei haddysgu gan gynorthwywyr addysgu; yr oedd tua hanner yr athrawon cynradd yn teimlo diffyg hyder wrth addysgu AG; ac yr oedd dros 50% o athrawon AG yn y sector uwchradd heb unrhyw gymhwyster mewn AG. Yr oedd cynnwys athrawon anarbenigol yn y ffigurau'n creu argraff gamarweiniol fod gan Loegr ddigon o athrawon AG. Yr oedd y canfyddiadau'n** | **5. Materion sy'n codi / Matters arising**<br>**Item 6, 3rd point. Update on the launch of the All Party Parliamentary Group attended by Tania ap Sion in June 2012. The enquiry has been completed and copies of report are available from the WASACRE website. It presents a worrying picture in England in regard to supply of RE teachers and support for RE teachers. E.g. RE taught by teaching assistants; about half of primary teachers lacked confidence in teaching RE; over 50% of secondary RE teachers have no qualification in RE. The inclusion of non-specialists gave a false impression of England having enough RE teachers. The findings also show that applications for RE teacher training courses are down by 140, with the loss of bursaries for RE. With regard to support, 40% of schools found that RE teachers have limited access to** |

| | |
|---|---|
| **dangos yn ogystal fod gostyngiad o 140 yn y ceisiadau am leoedd ar gyrsiau hyfforddi athrawon AG, oherwydd colli bwrsariaethau ar gyfer AG. Ynglŷn â chymorth, yr oedd 40% o ysgolion wedi canfod mai mynediad cyfyngedig yn unig oedd gan athrawon AG i DPP. Yr oedd amrywiaeth o bolisïau llywodraeth yn Lloegr, e.e. yr EBacc, yn gostwng statws AG mewn ysgolion yn Lloegr.<br>Mewn perthynas â chanlyniadau ymchwiliad APPG yn Lloegr, mynegodd Tudor Thomas (CBAC) bryderon ynglŷn â'r cwymp yn nifer yr ymgeiswyr yn Lloegr ar gyfer yr arholiad CBAC mewn Astudiaethau Crefyddol, oherwydd yr EBacc, a nododd fod hyn yn destun pryder mawr. Nid oedd cyrsiau byrion yn cael eu cydnabod yn Lloegr, ac yr oedd statws cymwysterau mewn AG yn gyffredinol wedi lleihau. Gofynnodd Rheinallt Thomas a allai CCYSAGauC gynnal prosiect ymchwil yn canolbwyntio ar y sefyllfa yng Nghymru, ac o bosib cynnal 'adolygiad' yng Nghymru. Mewn ymateb, atgoffodd Vicky Thomas yr aelodau y byddai canlyniadau adolygiad thematig Estyn ar gael cyn hir, a dywedodd y gallai'r rhain fod o gymorth. Awgrymodd y dylai CCYSAGauC aros i weld beth fyddai cynnwys adroddiad Estyn ar Fehefin 18fed. Cytunodd Leslie Francis fod ymchwil yn ddefnyddiol, a chynigiodd Rheinallt Thomas y dylem aros, a thrafod hyn yn nes ymlaen. Cytunodd yr aelodau.** | **CPD. A range of government policies in England, e.g. the EBacc, is lowering the status of RE in schools in England.<br>In relation to the results of the APPG enquiry in England, Tudor Thomas (WJEC) raised concerns about the drop in WJEC RS exam entries in England due to the EBacc and noted that this was very worrying. Short courses are not recognised in England and the status of RE qualifications in general has diminished. Rheinallt Thomas asked whether WASACRE could do a research project focusing on the situation in Wales, and perhaps conduct a Wales 'review'. In response, Vicky Thomas reminded members that we will have the results of the Estyn thematic review shortly and said that this may be helpful and suggested that WASACRE waits to see what Estyn reports on 18 June. Leslie Francis agreed that research is helpful and Rheinallt Thomas proposed that we wait but discuss this at a later date. Members agreed.** |
| **Mynegodd Mary Parry bryderon ynglŷn â'r adolygiad o'r cwricwlwm yng Nghymru, gan nad oedd AG yn rhan ohono, ac awgrymodd y dylai CCYSAGauC ofyn bod AG yn cael ei gwneud yn rhan o'r adolygiad. Yr oedd hi'n pryderu na fyddai'r Fframwaith Enghreifftiol yn berthnasol mwyach, yn wyneb dyfodiad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd a newidiadau eraill posibl yn y cwricwlwm. Anogodd Gavin Craigen bwyll, gan ddweud mai'r rheswm nad oedd AG wedi** | **Mary Parry raised concerns about the curriculum review in Wales, with RE not being a part of this review, and suggested that WASACRE should request that RE be made part of the review. She was concerned that the Exemplar Framework would no longer be relevant with the new Literacy and Numeracy Framework and other possible curriculum changes. Gavin Craigen urged caution, saying that the reason RE has not been included is because Welsh Government is satisfied with it. Therefore, he suggested that** |

| | |
|---|---|
| **ei chynnwys oedd bod Llywodraeth Cymru'n fodlon arni. Awgrymodd, felly, y dylai CCYSAGauC atgoffa Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd AG a bod AG yn ofyniad statudol. Rhannodd Rheinallt Thomas yr ohebiaeth yr oedd wedi ei derbyn yn Rhagfyr 2012 oddi wrth Leighton Andrews, mewn ymateb i lythyr yr oedd wedi ei ysgrifennu ato; tynnodd sylw arbennig at yr adran ganlynol:<br>Bydd AG yn aros yn ofyniad statudol yn yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.2(1)(a)). Rhaid i'r addysg grefyddol sy'n cael ei chyflwyno mewn ysgolion barhau i gydymffurfio â gofynion y maes llafur sydd wedi ei gytuno'n lleol gan bob awdurdod lleol drwy ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG). Buasem yn disgwyl i'r trefniadau hyn barhau oddi mewn i'r strwythur consortia rhanbarthol, ond yn amlwg byddai'r manylion yn amrywio o un consortiwm i'r llall…<br>Dywedodd Gill Vaisey fod CYSAG'au Blaenau Gwent a Sir Fynwy wedi trafod yr adolygiad o'r cwricwlwm, a'i bod yn well ganddynt beidio â gwneud diwygiadau i'w meysydd llafur cytûn eto, gan y byddai'n rhaid iddynt wneud diwygiadau yn unol â'r newidiadau y byddai'r adolygiad o'r cwricwlwm yn eu cynnig ar ôl Medi 2014. Cododd Vicky Thomas y pwynt ein bod wedi meddu ar feysydd llafur cytûn cyffredin yng Nghymru ers 2008, ac i hyn fod yn gamp sylweddol. Yr oedd perygl bellach o golli'r cyffredinrwydd hwnnw ar draws Cymru pe bai Awdurdodau Lleol yn gwneud eu newidiadau eu hunain er mwyn adlewyrchu'r newidiadau cenedlaethol. Nododd Carys Pritchard mai ym Medi 2014 y byddai'r adolygiad o'r cwricwlwm yn cael ei gwblhau, a bod yr arfarniad o'r Cyfnod Sylfaen yn parhau. Dylai CCYSAGauC gymryd i ystyriaeth weithrediad ac effaith yr arfarniad hwn, a'i effaith i'r dyfodol hefyd.** | **WASACRE should remind Welsh Government of the importance of RE and that RE is a statutory requirement. Rheinallt Thomas shared the correspondence he had received in December 2012 from Leighton Andrews, written in response to a letter he had written, highlighting the following section:<br>RE will remain a statutory requirement in all maintained schools in Wales and England (Education Reform Act 1988 s.2 (1) (a)). The religious education taught in schools must continue to comply with the requirements of the locally agreed syllabus produced by each local authority via its Standing Advisory Council for Religious Education (SACRE). We would expect these arrangements to continue within the regional consortia structure but exact details would obviously vary from one consortia to another…<br>Gill Vaisey said that Blaenau Gwent and Monmouthshire SACREs have discussed the curriculum review and felt they would rather not make any change to their agreed syllabi yet as they would have to make amendments in line with the curriculum review proposed changes after September 2014. Vicky Thomas raised the point that since 2008 we have commonality of agreed syllabi in Wales and this has been a significant achievement. There was now a danger of losing commonality across Wales if Local Authorities make their own changes to reflect the national changes. Carys Pritchard noted that September 2014 is when the curriculum review will have been finalised and that the evaluation of the Foundation Phase is on-going. WASACRE should take account of the implementation, impact and future impact of this evaluation also.** |

| | |
|---|---|
| **Awgrymodd rhai aelodau y dylai CCYSAGauC gysylltu â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i ofyn bod AG yn cael ei chynnwys yn yr adolygiad o'r cwricwlwm a/neu i dynnu ei sylw at y Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer AG (2008) a gofyn beth fyddai effaith debygol yr adolygiad o'r cwricwlwm arno o Fedi 2014 ymlaen. Mewn pleidlais ar fater anfon llythyr at y Gweinidog, cefnogodd mwyafrif o'r aelodau gynnig y dylai CCYSAGauC ysgrifennu llythyr ac y dylid gadael i swyddogion y Gymdeithas wneud hyn ar eu rhan.**<br><br>**6. Hyfforddiant CA3/ KS3 Training. Diolchodd Gavin Craigen i GCYSAGauC am y cyfle i gynnig yr hyfforddiant CA3, a rhannodd yr adborth cadarnhaol iawn a gafwyd gan gyfranogion i'r arfarniad o'r digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd ar draws Cymru. Byddai copi o'i gyflwyniad ar gael ar wefan CCYSAGauC. Yr oedd yr arfarniadau'n dangos negeseuon cadarnhaol gan athrawon. Hwn oedd yr hyfforddiant cenedlaethol cyntaf, ac yr oedd wedi profi'n brosiect buddiol iawn.**<br><br>**Diolchodd y Cadeirydd i Gavin am ei waith caled, ac adleisiwyd hyn gan Vicky Thomas a Gill Vaisey, a dynnodd sylw at y ffaith fod CCYSAGauC wedi ymateb yn gadarnhaol i fater cymedroli yn CA3 drwy ariannu a threfnu'r hyfforddiant; cydnabuasant hefyd waith caled yr ymgynghorwyr o bob rhan o Gymru a fu'n rhan o hyn. Awgrymodd Gill Vaisey y dylai CCYSAGauC ystyried a oedd angen i'r Gymdeithas gefnogi DPP pellach ar gyfer athrawon AG yn yr hinsawdd a oedd ohoni (hynny yw, oddi mewn i'r trefniadau ar gyfer consortia, a'r lleihad mewn gwasanaethau ymgynghorol). Cytunodd Phil Lord y dylid ymchwilio i hyn, gan fod posibilrwydd y byddai ysgolion yn cael eu gorfodi i ddefnyddio adnoddau neu hyfforddiant o Loegr na fyddai'n adlewyrchu cwricwlwm AG Cymru. Adleisiodd y Cadeirydd y pryderon hyn,** | **Some members suggested that WASACRE contact the Minister of Education and Skills to request that RE is included in the curriculum review and /or to draw his attention to the Exemplar Framework for RE (2008) and ask what likely impact the curriculum review will have on it from September 2014. In response to a vote on the question of sending a letter to the Minister, a majority of members voted for WASACRE to write a letter and to leave the officers of the Association to do this on their behalf.**<br><br>**6. Hyfforddiant CA3/ KS3 Training. Gavin Craigen thanked WASACRE for the opportunity to offer the KS3 training, and shared the very positive participant evaluation feedback from the training events held across Wales. A copy of his presentation will be available on the WASACRE website. Evaluations showed positive messages from teachers. This was the first national training and proved a very worthwhile project.**<br><br>**The Chair thanked Gavin for his hard work and this was echoed by Vicky Thomas and Gill Vaisey who pointed out that WASACRE responded positively to the KS3 moderation issue by funding and organising the training and acknowledged the hard work of the advisors from all areas of Wales who had been part of this. Gill Vaisey suggested that WASACRE should look at whether there is a need for the Association to support further CPD for RE teachers in the current climate (that is within the consortia arrangements, and reduced advisory services). Phil Lord agreed that this should be explored because schools may be forced to use resources or training from England which would not reflect the Welsh RE curriculum. Chair echoed these concerns and suggested that we keep an eye on the situation.** |

| | |
|---|---|
| **ac awgrymodd y dylem gadw llygad ar y sefyllfa.** | |
| **Gwnaeth aelodau eraill y sylw fod mawr angen am gefnogaeth CCYSAGauC yn y maes hwn, a gwerthfawrogiad mawr ohoni hefyd, gan na allai ysgolion fforddio anfon athrawon allan ar gyfer DPP; a bod gorfod talu cost athrawon llanw'n unig yn help. Dywedodd Vicky Thomas fod cost yr hyfforddiant, sef oddeutu £40 am bob athro, yn cynnig gwerth am arian, a bod hyn yn bosibl oherwydd bod awdurdodau lleol neu gonsortia'n cydweithio i gadw'r costau'n isel. Estynnwyd diolch i gonsortia ac awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan ac yn talu am y mannau cyfarfod a chinio canol dydd etc.** | **Other members commented that WASACRE support in this area is much needed and appreciated as schools cannot afford to send teachers out for CPD and that it helped only having to pay for supply cover. Vicky Thomas said the training was value for money at around £40 for each teacher and this was possible due to Local authorities or consortia working together to keep the costs low. Thanks were extended to consortia and LAs that were involved and who paid for venues and lunches etc.** |
- yn eich galluogi i weithio oddi mewn i'ch CYSAG i gefnogi ac annog ysgolion lleol i sicrhau safonau uchel mewn Addysg Grefyddol ac addoli.

## PAM Y MAE CYSAG YN BOD?

Ym 1944 awdurdodwyd Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) trwy gyfraith i sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, CYSAG a bod yn gryno. Ym 1988 gosodwyd dyletswydd ar yr Awdurdodau Addysg Lleol i wneud hyn.

## BETH YW GWAITH CYSAG?

Mae'n ofynnol dan y gyfraith i AG gael ei ddysgu mewn ysgolion, ond nid yw AG yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn lle hynny, cyfrifoldeb lleol yw AG. Y CYSAGau sy'n cadw golwg ar AG ac Addoli ar y Cyd.

## PWY FYDDWCH CHI'N DOD AR EU TRAWS MEWN CYSAG?

Amcan CYSAG yw cynrychioli holl ddiddordebau'r gymuned leol. Gallech daro ar gynghorwyr wedi eu hethol, cynrychiolwyr cymunedau ffydd, a phobl o fyd addysg.





# SO YOU'RE JOINING YOUR LOCAL SACRE . . .

You may have been:

*persuaded*
*elected*
*volunteered*

This booklet:

- is intended as a guide;
- points out appropriate legal documentation;
- identifies support material;
- enables you to work within your SACRE to support and encourage local schools to ensure high standards in Religious Education and worship.

## WHY IS THERE A SACRE?

In 1944, Local Education Authorities (LEAs) were empowered by law to set up a Standing Advisory Council on Religious Education, known in short as a SACRE. In 1988, LEAs had a duty laid upon them to do so.

## WHAT DOES A SACRE DO?

It is required by law that RE be taught in schools, but RE is not part of the National Curriculum. Instead RE is a local responsibility. SACREs oversee RE and Collective Worship.

## WHO WILL YOU MEET AT A SACRE?

A SACRE is designed to represent all the interests of the local community. You could find elected councillors, representatives of faith communities, and members of the education community.

# AM GAEL GWYBOD RHAGOR?

Mae CYSAG yn rhan o gyfundrefn llywodraeth leol.

*Cylchlythyr 10/94* Y Swyddfa Gymreig, **paragraff 88:1 a 2**; *Deddf Addysg 1996*, **Pennod III**

## PA DDYLETSWYDDAU SYDD GANDDO?

Ei brif swyddogaeth yw cynghori AALl ar faterion yn ymwneud ag Addoli ar y Cyd mewn ysgolion cymunedol a rhai ysgolion eraill, ac â'r Addysg Grefyddol sy'n cael ei chyflwyno yn unol â'u Maes Llafur Cytûn. Mae'r sefyllfa'n un ddyrys. Efallai y bydd Tabl 1 yn gymorth.

- Gall CYSAG fynnu bod AALl yn adolygu ei Faes Llafur Cytûn.
- Mae'n rhaid iddo roi ystyriaeth i geisiadau gan benaethiaid am i'w hysgol gael ei rhyddhau o'r rheidrwydd i Addoli ar y Cyd fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei natur. Gelwir hyn yn ddyfarniad.
- Mae'n rhaid i CYSAG gyhoeddi Adroddiad Blynyddol am ei waith.

**ACCAC**, *Adroddiadau Blynyddol CYSAGau, Canllawiau ynghylch eu Strwythur a'u Fformat*

**ACCAC**, *Arolwg o Adroddiadau'r CYSAGau*

Tabl 1: **Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn Ysgol**

| | Ysgolion Cristnogol eu Cymeriad | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Dan gymorth Gwirfoddol* | *Dan Reolaeth Wirfoddol* | *Gwaddoledig* | *Cymunedol* |
| *Addysg Grefyddol* | Yn adlewyrchu'r cymeriad crefyddol (1) | Maes Llafur Cytûn yr AALl (2) | Maes Llafur Cytûn yr AALl (2) (3) | Amherthnasol |
| *Addoliad* | Yn adlewyrchu'r cymeriad crefyddol | Yn adlewyrchu'r cymeriad crefyddol | Yn adlewyrchu'r cymeriad crefyddol | Amherthnasol |

| | Ysgolion Heb Gymeriad Cristnogol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Dau Gymorth Gwirfoddol* | *Dan Rheolaeth Wirfoddol* | *Gwaddoledig* | *Cymunedol* |
| *Addysg Grefyddol* | Maes Llafur Cytûn yr AALl | Maes Llafur Cytûn yr AALl | Maes Llafur Cytûn yr AALl (3) | Maes Llafur Cytûn yr AALl |
| *Addoliad* | Deddf 1996 - yn gyffredinol ac yn bennaf Gristnogol | Deddf 1996 - yn gyffredinol ac yn bennaf Gristnogol | Deddf 1996 - yn gyffredinol ac yn bennaf Gristnogol | Deddf 1996 - yn gyffredinol ac yn bennaf Gristnogol |

**Nodiadau**: Mae gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o Addysg Grefyddol ac/neu Addoli ar y Cyd ym mhob ysgol.
(1) Gall rhieni ddewis bod eu plant yn cael AG yn ôl y Maes Llafur Cytûn.
(2) Gall rhieni ddewis bod eu plant yn cael AG yn ôl cymeriad crefyddol yr ysgol.
(3) Mae cyfnod o bum mlynedd yn cael ei ganiatáu i'r ysgolion hyn droi yn eu holau at Faes Llafur Cytûn yr AALl os ydynt wedi bod yn defnyddio Maes Llafur o eiddo awdurdod arall.



# WANT TO KNOW MORE?

A SACRE is part of the local government machinery

Welsh Office *Circular 10/94*, **para 88:1 a 2**; *Education Act 1996*, **Pennod III**

## WHAT ARE ITS DUTIES?

Its main function is to advise the LEA on matters related to Collective Worship in community schools and some other schools and on the Religious Education given in accordance with their Agreed Syllabus. The situation is complicated. Figure 1 may help.

- The SACRE can require the LEA to review its Agreed Syllabus.
- It must consider applications from head teachers that their school be released from the requirement for Collective Worship to be wholly or mainly of a broadly Christian character. This is known as a determination.
- The SACRE must publish an Annual Report of its work.

**ACCAC**, *Annual SACRE Reports: Guidance on the Format and Structure*

**ACCAC** *Review of SACRE Reports*

Figure 1: **Religious Education and Collective Worship in School**

| | Schools Having a Religious Character | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Voluntary Aided* | *Voluntary Controlled* | *Foundation* | *Community* |
| *Religious Education* | Reflects religious character (1) | LEA Agreed Syllabus (2) | LEA Agreed Syllabus (2) (3) | Not applicable |
| *Worship* | Reflects religious character | Reflects religious character | Reflects religious character | Not applicable |

| | Schools Having No Religious Character | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Voluntary Aided* | *Voluntary Controlled* | *Foundation* | *Community* |
| *Religious Education* | LEA Agreed Syllabus | LEA Agreed Syllabus | LEA Agreed Syllabus (3) | LEA Agreed Syllabus |
| *Worship* | 1996 Act - Broadly and Mainly Christian | 1996 Act - Broadly and Mainly Christian | 1996 Act - Broadly and Mainly Christian | 1996 Act - Broadly and Mainly Christian |

**Notes**: Parents have the right to withdraw their children from RE and/or Collective Worship in all schools.
(1) Parents can opt for their children to receive Agreed Syllabus RE.
(2) Parents can opt for their children to receive RE in accordance with the religious character of the school.
(3) These schools have a five-year period to return to their LEA Agreed Syllabus if they have been using a syllabus from another authority.

## BETH ARALL MAE CYSAG YN GALLU EI WNEUD?

Swyddogaeth CYSAG, yn gyffredinol, yw cefnogi darpariaeth effeithiol ar gyfer AG ac Addoli ar y Cyd y tu mewn i derfynau ei gyfrifoldebau, gweler Tabl 1, trwy:

- roi cyngor ar ddulliau cyflwyno Addysg Grefyddol yn unol â'r Maes Llafur Cytûn, gan gynnwys pa ddefnyddiau addysgu i'w dewis;
- cynghori'r AALl ar ddarparu hyfforddiant ar gyfer athrawon;
- monitro adroddiadau arolygwyr ar AG, Addoli ar y Cyd a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol;
- rhoi ystyriaeth i gwynion ynglŷn â darparu a chyflwyno Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd sy'n cael eu cyfeirio ato gan yr AALl.

Fel aelod o'ch CYSAG lleol byddwch yn ymwneud â'r broses ffurfiol yn ôl gofyn y gyfraith. Serch hynny, dyma gyfle i gydweithio â phobl eraill i edrych ar addysg grefyddol pobl ifanc yn eich cymuned chi, yn greadigol a chyda dychymyg. Neilltuwch amser i freuddwydio breuddwydion!

## TIPYN RHAGOR AM GYFANSODDIAD CYSAG

Mae hyn yn cael ei bennu gan y gyfraith. Mae'n cynnwys tri phwyllgor. Gweler Tabl 2.

**Tabl 2: Cyfansoddiad CYSAG**

**Pwyllgor A**
Cynrychiolwyr:
enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a'u henwadau gan adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal

**Pwyllgor B**
Cynrychiolwyr Athrawon

**Pwyllgor C**
Cynrychiolwyr AALl

Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn hawliau pleidleisio cyfartal (un bleidlais ar gyfer pob pwyllgor).





## WHAT ELSE CAN A SACRE DO?

A SACRE's broad role is to support effective provision of RE and Collective Worship within its remit, see Figure 1, by:

- giving advice on methods of teaching agreed syllabus RE including the choice of teaching materials;
- advising the LEA on the provision of training for teachers;
- monitoring inspection reports on RE, Collective Worship and Spiritual, Moral, Social and Cultural Development (SMSC);
- considering complaints about the provision and delivery of Religious Education and Collective Worship referred to it by the LEA.

As a member of your local SACRE, you will be involved in the formal process as required by the law. It is, however, an opportunity to work with others to look creatively and imaginatively at the religious education of young people in your community. Make time to dream dreams!

## SOME MORE ABOUT THE COMPOSITION OF A SACRE

This is defined by law. It is made up of three committees. See Figure 2.

**Figure 2: The Composition of a SACRE**

**Committee A**
Representatives of:
Christian denominations and other religions and their denominations reflecting the principal religious traditions of the area

**Committee B**
Teacher representatives

**Committee C**
LEA representatives

Each of these committees has equal voting rights (one vote per committee).

## PWYLLGOR A

Mae hwn yn cynnwys cynrychiolwyr enwadau Cristnogol, e.e. rhai o'r canlynol, yr Eglwys Babyddol, yr Eglwys yng Nghymru, Eglwysi Rhyddion, Bedyddwyr, Methodistiaid, Presbyteriaid, Annibynwyr, yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig, Byddin yr Iachawdwriaeth, Cymdeithas y Cyfeillion.

Yn ogystal, mae'n gallu cynnwys cynrychiolwyr o blith crefyddau eraill, e.e. Mwslimiaid, Iddewon, Hindŵiaid, Sikhiaid, Bwdhyddion, Jainiaid, Bahaiaid, Parsïaid.

Ni all cynrychiolwyr y Dyneiddwyr fod yn aelodau o Bwyllgor A ond fe ellir eu cyfethol i'r CYSAG fel aelodau ychwanegol.

Bydd cyfansoddiad Pwyllgor A yn amrywio o GYSAG i GYSAG wrth adlewyrchu amrywiaeth a niferoedd y gwahanol gymunedau ffydd sydd yn yr ardal.

## PWYLLGOR B

Cynrychiolwyr cymdeithasau athrawon yw'r athrawon sy'n aelodau o'r pwyllgor hwn. Yr Awdurdod Addysg Lleol sydd yn penderfynu pa gymdeithasau athrawon sy'n cael eu cynrychioli. Fe ddichon gysylltu ag undebau'r athrawon, ond mae'n bosibl y gofynnir i gymdeithasau athrawon AG lleol ddewis cynrychiolydd.

## PWYLLGOR C

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Addysg Lleol yw ymorol am ei gynrychiolwyr ei hunan ar gyfer y pwyllgor hwn. Efallai mai dymuniad yr Awdurdod Addysg Lleol fydd cael cynrychiolaeth o bob plaid a barn yn y sbectrwm gwleidyddol cyfan ar y CYSAG.

## AMBELL BETH YMARFEROL

**Pa mor aml y mae CYSAG yn cwrdd?**

Nid oes rheol bendant yn dweud sawl cyfarfod y dylai CYSAG ei gynnal bob blwyddyn. Sut bynnag, mae'n rhaid iddo gwrdd yn ddigon aml i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn argymell bod hyn yn golygu cynnal cyfarfodydd o leiaf unwaith y tymor. Mae rheidrwydd arno hefyd i lunio Adroddiad Blynyddol.

**A fydd gwahaniaeth os na fyddaf i yno?**

- Dylai o leiaf un aelod o bob pwyllgor fod yn bresennol ymhob cyfarfod o CYSAG.
- Nid oes modd gwneud penderfyniadau onibai bod o leiaf un aelod yn bresennol i fwrw'r un bleidlais sydd gan y pwyllgor.
- Nid oes pleidlais gan aelodau sydd wedi eu cyfethol.



## COMMITTEE A

Within these groups will be those from faith communities represented within the locality.

This contains representatives of Christian denominations, e.g., some of the following: the Roman Catholic Church, Church in Wales, Free Churches, Baptist, Methodist, Presbyterian Church of Wales, Union of Welsh Independents, United Reformed Church, Salvation Army, Society of Friends.

It also might contain representatives from other Faiths, e.g., Muslims, Jews, Hindus, Sikhs, Buddhists, Bahais, Parsees, Jains.

The composition of Committee A will vary from SACRE to SACRE as it reflects the variety and numerical representation of the different faith communities in the locality.

Humanist representatives cannot be members of Committee A but can be co-opted to the SACRE as additional members.

## COMMITTEE B

The teacher members of the committee are representatives of teacher associations. It is the Local Authority that decides which teacher associations will be represented. They may approach the teacher unions, but it is possible that associations of RE teachers in the local area will be asked to provide a representative.

## COMMITTEE C

It is the local authority's responsibility to provide their own representatives for this committee. The LEA may wish to have all parties and viewpoints from across the political spectrum represented on the SACRE.

## SOME PRACTICALITIES

**How often does a SACRE meet?**

There is no hard and fast rule about the number of meetings a SACRE should hold each year. It must, however, meet sufficient times to fulfil its statutory duties. WASACRE recommends that this necessitates meetings being held at least once a term. There is a requirement to produce an Annual Report.

**If I'm not there, will it matter?**

- Each committee should have at least one member present.
- Decisions cannot be made unless there is at least one person present to cast the committee's single vote.
- Co-opted members do not have a vote.

**A fydd rhywun yn gofyn i mi gadeirio'r cyfarfod?**

Nid yw'r gyfraith yn dweud sut y dylid penodi Cadeirydd y CYSAG. Mae modd i'r AALl benderfynu neu ganiatáu i'r CYSAG ddewis Cadeirydd o blith yr aelodau. Fel aelod o'r CYSAG fe allech chi, felly, gael eich dewis yn Gadeirydd eich CYSAG, ond nid yn groes i'ch ewyllys chwaith!

*Cylchlythyr 10/94* Y Swyddfa Gymreig, paragraffau 114, 115

**A fydd rhywun yn gofyn i mi gadw'r cofnodion?**

Mae'r cyfrifoldeb sydd ar yr AALl i sefydlu CYSAG yn awgrymu bod dyletswydd arno i'w ariannu. Mae hyn yn golygu y dylai'r AALl drefnu clerc ar gyfer y CYSAG a fyddai'n bresennol ym mhob un o'i gyfarfodydd ac yn cadw'r cofnodion. Fel rheol y clerc yw'r ddolen gyswllt y tu mewn i'r AALl yn achos materion sy'n ymwneud â CYSAG.

## ADDOLI AR Y CYD

Mae Tabl 1 yn dangos y mathau o ysgolion sydd â'u Haddoli ar y Cyd o fewn terfynau cyfrifoldeb CYSAG. Mae'n rheidrwydd ar yr ysgolion hyn i ddarparu act feunyddiol o Addoli ar y Cyd a 'fydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei natur'. Mae hyn yn golygu ei fod yn adlewyrchu traddodiadau'r gred Gristnogol yn fras heb fod yn nodweddiadol o un enwad Cristnogol arbennig.

*Deddf Addysg 1996*, Pennod III

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn argymell y dylai CYSAGau:

- dderbyn adroddiadau arolygwyr;
- monitro ymarfer da, gan gynnwys unrhyw anawsterau;
- cynnig cyngor i benaethiaid a chyrff llywodraethol a lledaenu ymarfer da.

Mae llawer o'r CYSAGau'n cynhyrchu eu datganiadau hwy eu hunain ar Addoli ar y Cyd.

## DYFARNIADAU

'Eithrio o Addoli ar y Cyd sy'n gyffredinol Gristnogol' yw dyfarniadau. Mae trefn gwneud dyfarniadau yn caniatáu bod y rheidrwydd i'r Addoli ar y Cyd 'fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn gyffredinol Gristnogol ei natur' yn gallu cael ei ddiddymu yn achos rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad yw hynny'n cael ei ystyried yn addas iddi hi.

Gwneir ceisiadau am ddyfarniadau i'r CYSAG gan bennaeth unrhyw ysgol gymunedol, ar ôl ymgynghori â chorff llywodraethol yr ysgol. Yn achos ysgolion nad ydynt yn grefyddol eu cymeriad yn unig y mae dyfarniadau'n bosibl. Dylai'r CYSAG adolygu pob un o'r dyfarniadau bob pum mlynedd.

*Deddf Addysg 1996*, Pennod III, Cylchlythyr 10/94 Y Swyddfa Gymreig, Paragraffau 68-80



**Will I be asked to Chair the meeting?**

The law does not state how the Chair of a SACRE should be appointed. The LEA can make this decision or can allow the SACRE to choose the Chair from amongst their members. As a member of the SACRE you could, therefore, be appointed Chair of the SACRE, but not against your will!

*Welsh Office Circular 10/94*, para. 114, 115

**Will I be asked to take the minutes?**

The LEA's responsibility to set up a SACRE implies a duty to fund it. This means the LEA should provide a clerk for the SACRE who would attend and minute each meeting. The clerk is usually the point of contact for SACRE matters within the Local Authority.

## COLLECTIVE WORSHIP

Figure 1 shows the types of school whose Collective Worship comes within the remit of the SACRE. These schools are required to provide a daily act of Collective Worship which 'shall be wholly or mainly of a broadly Christian character'. This means it reflects the broad traditions of Christian belief without being distinctive of any particular Christian denomination.

*Education Act 1996*, Chapter III

WASACRE recommends that SACRES:

- receive inspection reports;
- monitor good practice, including any difficulties;
- offer advice to head teachers and governing bodies and disseminate good practice.

Many SACREs produce their own statements on Collective Worship.

## DETERMINATIONS

Determinations are 'exceptions from broadly Christian Collective Worship'. The determination procedure allows for the requirement that Collective Worship should be 'wholly or mainly of a broadly Christian character' to be lifted in respect of some or all of the pupils in a school for whom this is deemed inappropriate.

Applications for determinations are made to the SACRE by the head teacher of any community school after consultation with the school's governing body. Determinations are only possible for schools that have no religious character. The SACRE should review each determination every five years.

*Education Act 1996*, Chapter III, *Welsh Office Circular 10/94*, para. 68-80

Mae Tabl 1 yn dangos y mathau o ysgolion y daw eu darpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol o fewn terfynau cyfrifoldeb CYSAG. Mae'n rhaid i'r ysgolion hyn ddilyn y Maes Llafur Cytûn lleol ar gyfer Addysg Grefyddol a rhaid i'r Maes Llafur Cytûn lleol 'adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw traddodiadau crefyddol Prydain Fawr gan gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr'.

*Deddf Addysg 1996*, **Pennod III, Cylchlythyr 10/94 Y Swyddfa Gymreig, Paragraffau 31-37**

Dylai'r CYSAGau ddarparu cyngor ar:

**Dulliau dysgu Addysg Grefyddol**

Pa ffordd yw'r orau i gyflwyno'r Maes Llafur Cytûn i bob grŵp oedran? Pa gymysgedd ddylai fod o gynnwys ffurfiol, gwaith thematig, gwaith grŵp, darganfod personol, ymweld â safleoedd neu ddigwyddiadau penodedig, ac ymwelwyr ar berwyl addysgol? Pa gyswllt sydd ag astudiaethau traws-gwricwlaidd, â Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ac ag Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd? A yw arwahanrwydd Addysg Grefyddol yn cael ei gadw mewn cysylltiadau o'r fath?

**Y dewis sydd yn bod o ran adnoddau ar gyfer Addysg Grefyddol**

Mae cyhoeddiadau cenedlaethol yn adolygu'r holl ddeunyddiau newydd ar gyfer Addysg Grefyddol ac mae modd i athrawon ymweld â chanolfannau adnoddau. Dylai'r CYSAG ystyried amgylchiadau ariannol a chynnig cyngor, gyda chymorth Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, ynglŷn â'r deunyddiau mwyaf addas (neu fwyaf darbodus) ar gyfer cyflawni nodau, amcanion a chynnwys y Maes Llafur Cytûn.

**Hyfforddi Athrawon**

Mae arolygon cenedlaethol yn dangos bod cyflwyno Maes Llafur Cytûn newydd yn llwyddiannus yn gofyn am gryn fuddsoddiad o ran adnoddau ac o ran hyfforddi athrawon yr holl ysgolion cynradd a phob un sy'n dysgu Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd, os yw'r maes Llafur i gael ei weithredu'n effeithiol. Dylai'r CYSAGau sicrhau bod AALl yn ymwybodol o'r angen i athrawon gael eu hyfforddi i drosglwyddo'r Maes Llafur Cytûn Lleol yn effeithiol.

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn argymell y dylai CYSAGau:

- dderbyn adroddiadau arolygwyr;
- monitro ymarfer da ynglŷn â chyflwyno'r Maes Llafur Cytûn a chymryd sylw o unrhyw anawsterau;
- lledaenu ymarfer da ynglŷn â dysgu Addysg Grefyddol.

Mae diddordebau eraill yn cynnwys:

**Asesu a Phrofi**

Dylai CYSAGau fonitro sut mae ysgol yn mynd ati i asesu cynnydd disgyblion mewn Addysg Grefyddol. Yn ogystal, dylent fod yn ymwybodol o faint sy'n dewis sefyll arholiadau allanol mewn Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol.









Figure 1 shows the types of school whose provision for Religious Education comes within the remit of a SACRE. These schools are required to follow the local Agreed Syllabus for RE which must 'reflect the fact that the religious traditions in Great Britain are in the main Christian whilst taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Great Britain'.

*Education Act 1996*, **Chapter III, *Welsh Office*** *Circular 10/94*, para. 31-37

SACREs should provide advice on:

**Methods of teaching RE**

How is the Agreed Syllabus best delivered to each age group? What mixture should there be of formal content, thematic work, group work, personal discovery, visits to specified buildings or events, and visitors with an educational remit? What is the relationship to cross-curricular studies, to spiritual, moral, social and cultural development, and to Personal, Social and Health Education (PSHE)? Is the distinctiveness of RE being maintained in such relationships?

**Choices of resources for RE**

National publications review all new RE materials and resource centres can be visited by teachers. The SACRE should consider cost factors and offer, with an RE Adviser's help, advice on the most appropriate (or most economic) materials to deliver the aims, objectives and content of the Agreed Syllabus.

**Training of teachers**

National surveys show that the effective introduction of a new Agreed Syllabus requires a considerable investment in resources and in the training of all primary teachers and all those teaching RE in secondary schools, if the syllabus is to be properly implemented. SACREs should ensure that LEAs are aware of the need for teachers to be trained to deliver effectively the Local Agreed Syllabus for RE.

WASACREs recommends that SACREs:

- receive inspection reports;
- monitor good practice in the delivery of the Agreed Syllabus and take note of any difficulties;
- disseminate good practice on the teaching of RE.

Other interests also include:

**Assessment and testing**

SACREs should monitor school approaches to assessing pupils' progress in RE. They should also be aware of the uptake of external examinations in RE and RS.

## Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Dylai CYSAGau fod yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng Addysg Grefyddol y disgyblion a'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Fe fydd cyfle i Bwyllgor A ddynodi pa feysydd gwybodaeth y dylai disgyblion eu meddu ynglŷn â chredoau crefyddol, a'r dylanwad a gaiff y rhain ar lunio agweddau a gwerthoedd.

### Dysgu crefyddol o'r tu mewn i'r gymuned ffydd

Dylai CYSAGau fod yn ymwybodol y bydd rhai disgyblion yn cael eu dysgu'n ffurfiol am eu crefydd hwy eu hunain gan eu rhieni neu drwy fynychu eglwys, gurdwara, mosg, synagog neu deml. Gallai arddull y dysgu hwn fod yn wahanol i Addysg Grefyddol, sy'n cael ei phennu gan y gyfraith, i gael ei throsglwyddo yn eu hysgolion.

## ADOLYGU'R MAES LLAFUR ADDYSG GREFYDDOL

Mae'n ofynnol dan y gyfraith i bob AALl sefydlu adolygiad o'i Faes Llafur Cytûn lleol o fewn pum mlynedd i'r adolygiad diwethaf.

Os yw pwyllgorau A a B yn gwneud cais ysgrifenedig i'r AALl yn gofyn iddo ail ystyried ei Faes Llafur Cytûn mae'n rhaid iddo gynnull cynhadledd i'r diben hwnnw.

*Deddf Addysg 1996*, Pennod III

## FELLY BETH YW CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTÛN?

Mae Cynhadledd Maes Llafur Cytûn yn cael ei chynnull er mwyn cynhyrchu Maes Llafur Cytûn ar gyfer AG. Mae'n endid cyfreithiol ar wahân i CYSAG.

Mae Cynhadledd Maes Llafur:

- yn cynnwys yr un pwyllgorau â'r CYSAG;
- yn gallu cael ei ffurfio o aelodau'r CYSAG ond nid o anghenraid. Nid oes darpariaeth ar gyfer cyfethol aelodau.

Gall Cadeirydd y Gynhadledd gael ei benodi gan yr AALl neu gall yr AALl adael i'r Gynhadledd ddewis ei Chadeirydd ei hun.

Mae cyfrifoldeb yr AALl i gynnull Cynhadledd yn awgrymu bod dyletswydd arno i ddarparu arian ar gyfer ei waith.

Am y ddarpariaeth yn fanwl, gweler *Deddf Addysg 1996*, Pennod III, Atodlen 31



## RE and SMSC

SACREs should be aware of the links between pupils' RE and their spiritual, moral, social and cultural development. Committee A has the opportunity to indicate areas of knowledge that pupils should have about religious beliefs and the influence these have on the formation of attitudes and values.

### Religious teaching from within the faith community

SACREs should be aware that some pupils will be formally receiving teaching about their own religion from their parents or through attendance at church, gurdwara, mosque, synagogue or temple. The style of this teaching could differ from religious education, prescribed by law, to be delivered in their schools.

## REVIEW OF THE RE SYLLABUS

It is required by law that every LEA institute a review of its locally agreed syllabuses within five years of the last review.

If committees A and B ask the LEA in writing to reconsider its Agreed Syllabus it must convene a conference for that purpose.

*Education Act 1996*, Chapter III

## SO WHAT IS AN AGREED SYLLABUS CONFERENCE (ASC)?

An ASC is convened in order to produce an Agreed Syllabus for RE. It is a separate legal entity from a SACRE.

An ASC:

- contains the same committees as the SACRE;
- can be made up of SACRE members but need not do so. There is no provision for co-opted members.

The Chair of the ASC can be appointed by the LEA or the LEA may allow the ASC to choose its own Chair.

The LEA's responsibility to convene the ASC implies a duty to provide funds for its work.

For detailed provisions, see *Education Act 1996*, Chapter III, Schedule 31

# BETH YW CYFRANIAD NEILLTUOL POB UN O'R PWYLLGORAU TUAG AT WAITH CYSAG?

## PWYLLGOR A

Cynrychiolwyr o blith cymunedau ffydd, sy'n cael eu cynrychioli o fewn terfynau'r ardal, yw aelodau Pwyllgor A. Ynglŷn ag aelodau Pwyllgor A:

- dylent gyflwyno delwedd gadarnhaol o'u crefydd er mwyn cywiro unrhyw gamsyniadau o eiddo aelodau'r pwyllgorau eraill am unrhyw stereoteipiau crefyddol o bob enwad neu grefydd. Yn ogystal, dylent amlygu unrhyw agweddau a allai fod yn sail gwahaniaeth barn yn eu plith, ond gwneud yn eglur yr un pryd, y parch sydd ganddynt tuag at safbwynt y naill a'r llall - oherwydd bod argyhoeddiadau a chyd-ddeall fel hyn, gyda'i gilydd, wrth wraidd AG effeithiol yn y dosbarth;
- gallant greu cyfle yn ystod cyfarfodydd CYSAG i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n rhai sensitif o ran dysgu AG i blant eu cymuned ffydd hwy;
- dylent sylweddoli pa anawsterau y mae ysgolion yn eu hwynebu yn y cylch, cefnogi eu hymdrechion gorau, a gweithredu, lle bo angen, yn ddolen rhwng ysgolion a'r cymunedau ffydd.

## PWYLLGOR B

Athrawon sy'n cynrychioli cymdeithasau athrawon yw aelodau Pwyllgor B. Dylai aelodau Pwyllgor B:

- feddu diddordeb real a phositif mewn AG mewn ysgolion cynradd, uwchradd neu arbennig;
- sicrhau bod anghenion ysgolion ac athrawon yn cael eu hystyried gan y CYSAGau yn eu trafodaethau;
- porthi'r CYSAG â gwybodaeth am gyd-destun dysgu AG yn ysgolion yr awdurdod lleol;
- sicrhau bod y cymdeithasau sy'n cael eu cynrychioli ganddynt yn cael gwybod am waith CYSAG;
- creu cyfle i athrawon eraill ddysgu mwy am waith CYSAG a rhoi cyfle iddynt i gael mynegi eu safbwyntiau hwy yng nghyfarfodydd CYSAG;
- ymgynghori ag athrawon eraill ar faterion sydd o bwys arbennig i waith CYSAG.

## PWYLLGOR C

Cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol yw aelodau Pwyllgor C. Bydd aelodau Pwyllgor C yn gallu:

- dod â'r ystod eang o faterion addysgol a'r pryderon y mae aelodau etholedig yn ymlafnio â hwy i'r cyfarfod, gan leoli swyddogaeth AG y tu mewn i'r ystod honno;





# WHAT IS THE DISTINCTIVE CONTRIBUTION OF EACH OF THE COMMITTEES TO THE WORK OF SACREs?

## COMMITTEE A

Committee A is made up of representatives from faith communities represented within the locality. Members of Committee A:

- should present a positive image of their religion, so that members of the other Committees are disabused of any religious stereotypes of each denomination or religion. They must also make clear any grounds on which they may differ from each other, but also the respect they have for each other's viewpoints – since such convictions and mutual understanding both lie at the heart of effective classroom RE.
- can create opportunities within SACRE meetings to raise awareness of issues of sensitivity in the teaching of RE to the children of their faith community.
- should appreciate the difficulties schools are facing in the area, support their best endeavours, and act, where necessary as a link between schools and the faith communities.

## COMMITTEE B

Committee B is made of up of teachers who are representative of teacher associations. Members of Committee B should:

- have a real and positive interest in RE in primary, secondary or special schools;
- ensure that the needs of schools and teachers are considered by the SACRE in their discussions;
- provide SACRE with information about the context in which RE is taught in the schools in the local authority;
- ensure that the associations they represent are informed about the work of the SACRE;
- create opportunities for other teachers to learn more about the work of the SACRE and give them the opportunity to have their views expressed at SACRE meetings;
- consult other teachers on matters of particular importance to the work of SACRE.

## COMMITTEE C

Committee C is made up of representatives of the local authority. Members of Committee C:

- can bring to the meeting the breadth of educational issues and concerns which elected members are wrestling with and place RE's role within it;

- bod yn gefn i AG y tu mewn i wahanol bwyllgorau a chyfundrefnau'r AALl/Cyngor Sir;
- rhoi cefnogaeth wleidyddol fel y bo modd i AG a drefnir yn lleol ffynnu o fewn pob AALl - cefnogaeth ariannol, cefnogaeth ymgynghorol, etc;
- dirnad pa bynciau sy'n cael eu codi gan gymdeithas amrywiol ei chrefyddau a'i diwylliannau yng nghyswllt AG plant, ac adlewyrchu'r pynciau hyn yn y Pwyllgor Addysg, y Pwyllgor Archwiliad, y Cabinet, etc. fel modd i gefnogi AG;
- dwyn y dimensiwn 'cyhoeddus' i mewn i'r drafodaeth ynglŷn â darparu a chefnogi AG.

# GWNEUD GWAITH CYSAGau'N HYSBYS

**I Awdurdodau Addysg Lleol**

- Mae'r berthynas sydd rhwng y CYSAGau a gwaith yr AALl ac aelodau etholedig yn bwysig. **Dylai'r CYSAGau ofalu bod eu gweithrediadau yn cael eu gwneud yn hysbys i Bwyllgor Addysg yr AALl neu, lle nad oes Pwyllgor Addysg erbyn hyn, i'r pwyllgor priodol y mae'r Awdurdod wedi ei sefydlu i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau addysg,** trwy ddosbarthu cofnodion, sydd wedi cael eu derbyn yn rhai cywir, o bob cyfarfod, yn ogystal â chyflwyno eu Hadroddiad Blynyddol yn ffurfiol i'r pwyllgor hwnnw.
- Fe all yr Ymgynghorydd AG lleol gynnig arweiniad proffesiynol ac arbenigedd ymarferol, y gall y CYSAG ei ddefnyddio. Mae ei bresenoldeb/phresenoldeb yng nghyfarfodydd CYSAG yn werthfawr tu hwnt.

**I ysgolion, llywodraethwyr a rhieni**

- Yn ôl pob golwg mae llawer o ysgolion heb wybod am gyfrifoldebau a gweithgareddau eu CYSAG lleol. Byddai'n gymorth pe byddai'r CYSAGau'n awgrymu y dylai hysbysfwrdd staff pob ysgol arddangos gwybodaeth am aelodaeth CYSAG er mwyn i athrawon dosbarth gael gwybod at bwy i droi. Fel hyn gall yr arbenigedd neilltuol, ynglŷn â gwahanol grefyddau a gynrychiolir ar CYSAG fod, i ysgolion, yn ffynhonnell cyngor sy'n ddarlun teg o'r grefydd neu'r enwad dan sylw.
- Mae llawer o gyrff llywodraethol a rhieni nad ydynt yn ymwybodol o weithgareddau eu CYSAG lleol ac effaith hynny ar gyflwyno AG. Byddai'n gymorth rhoi gwybod i fwy o bobl bod modd cael gafael ar Adroddiad Blynyddol CYSAG.

**I'r cymunedau ffydd**

- Mae cyfrifoldeb ar aelodau unigol o'r cymunedau ffydd i roi gwybod i'r bobl y maent yn eu cynrychioli am weithgareddau CYSAG. Yn ogystal, dylent fod ar gael i glywed syniadau eu cymuned i'w bwydo i drafodaethau CYSAG.
- Dylai Adroddiad Blynyddol CYSAG gael ei anfon i'r cymunedau ffydd sy'n cael eu cynrychioli ar y CYSAG.

**I'r cyhoedd yn gyffredinol**

- Mae cyfarfodydd CYSAG yn agored i bawb. Dylid rhoi rhybudd am gyfarfodydd, a gofalu bod y dogfennau perthnasol ar gael.





- can be the supporters of RE within the various committees and structures of the LEA/ County Council;
- can give political support to enable RE, because of its local determination, flourish within each LEA – financial support, advisory support etc;
- can appreciate the issues raised by a multi-faith, multi-cultural society for the education of children in RE, and reflect these issues in the Education Committee, Scrutiny Committee, and Cabinet etc. as a means of supporting RE;
- can bring the 'public' dimension to the debate about RE provision and support.

# MAKING THE WORK OF SACREs KNOWN

**To Local Education authorities**

- The relationship of SACREs to the work of the LEA and elected members is important. **SACREs should ensure that their proceedings are reported to the LEA's Education Committee, or, where there is no longer an Education Committee, the appropriate committee established by the Authority to make decisions about education services,** through the circulation of the agreed minutes of each meeting as well as by the formal presentation, to that committee, of their Annual Report.
- **The local RE Adviser can provide professional guidance** and practical expertise which can be used by the SACRE. Their attendance at SACRE meetings is invaluable.

**To schools, governors and parents**

- Many schools seem unaware of the responsibilities and activities of their local SACRE. It would be helpful for SACREs to suggest that each school's staff notice board should display information about SACRE membership so that classroom teachers may know whom to contact. In this way the specialist expertise on different faiths represented on a SACRE may be a source, to schools, of advice representative of the religion or denomination concerned.
- Many governing bodies and parents are also unaware of the activities of their local SACRE and the impact of this on the teaching of RE. It would be helpful if the availability of the SACRE Annual Report is made more widely known.

**To the faith communities**

- Individual faith community members have a responsibility to inform those they represent about the activities of a SACRE. They should also be available to receive views of their community to feed into SACRE discussions.
- The SACRE Annual Report should be sent to the faith communities represented on the SACRE.

**To the general public**

- The SACRE meetings are open to the general public. Notice of meetings should be given and relevant documents made available.

# RESOURCES

## EDUCATION LEGISLATION

*Education Act 1996,* Part V, Chapter III, Schedule 31

*School Standards and Framework Act 1998,* Chapter VI and Schedules 19 and 20

The Welsh Office *Circular number 10/94* Religious Education and Collective Worship

Qualification, Curriculum and Assessment Authority for Wales (ACCAC):
*Annual SACRE Reports - Guidance on Structure and Format.* *ISBN 186112 0648*
*Review of SACRE Reports* - produced annually

## OTHER SOURCES OF INFORMATION

Faith communities and teacher organisations may produce material that is of use to SACREs.

The Wales Association of SACREs (WASACRE) provides a forum for the exchange of good practice and represents the aims, work and views of SACREs.

For further information contact:

The Secretary
WASACRE
Llety'r Adar
CONWY, LL32 8UA



# ADNODDAU

## DEDDFWRIAETH ADDYSG

*Deddf Addysg 1996, Rhan V, Pennod III, Atodlen 31*

*Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998,* Pennod VI ac Atodlenni 19 a 20

*Cylchlythyr 10/94* Y Swyddfa Gymreig - Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Awdurdod Cymwysterau ac Asesu'r Cwricwlwm ar gyfer Cymru (ACCAC):
*Adroddiadau Blynyddol CYSAGau.* *Canllawiau ynghylch eu Strwythur a'u Fformat* ISBN 186112064 8
*Arolwg o Adroddiadau CYSAGau* a gyhoeddir bob blwyddyn.

## FFYNONELLAU GWYBODAETH ERAILL

Fe ddichon cymunedau ffydd a chymdeithasau athrawon greu deunydd sydd o fudd i'r CYSAGau.

Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru (WASACRE) yn darparu fforwm ar gyfer cyfnewid ymarfer da ac yn cynrychioli amcanion, gwaith a safbwyntiau'r CYSAGau.

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:

Ysgrifennydd
Cymdeithas CYSAGau Cymru
Llety'r Adar
CONWY, LL32 8UA